COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Elusennau

2015-16

## Cynnwys

1 Cyflwyniad
2 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud
3 Adroddiad perfformiad
4 Atodiad cyfreithiol

# 1 Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae elusennau a dyngarwch yn nodwedd arbennig o'n gwlad ni. Mae ein helusennau yn rhai o'r elusennau mwyaf uchel eu parch ac effeithiol yn y byd. O ofalu am bobl sy'n sâl i addysgu cerddoriaeth i wneud gwaith ymchwil arloesol, mae ein helusennau yn gwneud ein cenedl yn lle gwell.

Mae hynny mor wir ag erioed, ac eto does dim dwywaith bod hon wedi bod yn flwyddyn anodd i'r sector elusennol. Mae ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau wedi lleihau am y tro cyntaf ers dros ddeng mlynedd wrth i weithredoedd ambell un gydgordio â phryder cyhoeddus ehangach nad oedd rhai elusennau yn byw yn ôl eu gwerthoedd. Mae'r neges yn glir: mae angen gweithredu ar y cyd.

Er gwaethaf bwriadau da ymddiriedolwyr yn aml, mae llywodraethu gwan yn parhau mewn mannau. Credwn fod llywodraethu cryf yn allweddol i adfer ffydd gyhoeddus.

Mae nifer o elusennau yn dechrau rhoi sylw i'r pryderon hyn ac yn ceisio gwella eu harferion. Mae rhai wedi mynd ymhellach a gwneud newidiadau beiddgar, gan ymestyn allan i'r rhai sy'n eu beirniadu. Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd yn aml a all olygu colli incwm yn y tymor byr a gofyn am arweinyddiaeth sicr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi tynnu sylw at lywodraethu gwan mewn elusennau a hyrwyddo'r angen am lywodraethu cryfach, cyfeiriad strategol cliriach a mwy o oruchwyliaeth gan ymddiriedolwyr - yn enwedig o ran gwydnwch ariannol a chodi arian - mewn elusennau o bob lliw a llun.

Yn y cyd-destun hwn, mae rôl y Comisiwn Elusennau fel rheoleiddiwr yn bwysicach nag erioed.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym wedi cyflawni eleni yn erbyn ein strategaeth. Rydym wedi disgrifio'r diweddariadau sylweddol a wnaed i'r canllawiau i ymddiriedolwyr a pheth o'n gwaith gweithredol, o gofrestru elusennau i roi caniatâd, i ymchwiliadau difrifol, yn ogystal â'n gwaith yn y Tribiwnlys a'r llysoedd.

Mae'n bleser gennym adrodd ar flwyddyn lle rhoddodd y Senedd bwerau newydd i'r Comisiwn i'n helpu i reoleiddio'n fwy effeithiol, moderneiddio ein pecyn cymorth rheoleiddio a rhoi sylw i rai o'r mannau gwan yn y fframwaith cyfreithiol. Cafodd y Ddeddf Elusennau (Diogelu a Buddsoddi Cymdeithasol) gefnogaeth drawsbleidiol a Chydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill. Rydym yn cymryd y cyfrifoldebau ychwanegol hyn o ddifrif; fel yn achos pob un o'n pwerau, byddwn yn atebol i'r Senedd ac i'r llysoedd am eu gweithredu.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn esbonio ein trawsffurfiad parhaus i fod yn rheoleiddiwr mwy effeithlon ac effeithiol, wedi'i symboleiddio gan ein logo newydd sydd i'w weld ar flaen yr Adroddiad Blynyddol hwn. Rydym yn digideiddio ein prosesau a'n gwasanaethau er mwyn i ni allu symleiddio gwaith risg isel a chanolbwyntio ein hadnoddau ar feysydd risg uwch. Mae hyn yn hollbwysig oherwydd y cyfyngiadau ar ein hadnoddau. Rydym bob amser yn ceisio gwneud mwy gyda llai a chredwn ein bod yn rheoleiddiwr mwy cynhyrchiol o ganlyniad.

Mae cryfhau dulliau llywodraethu elusennau a chynnig modd i ymddiriedolwyr elusen gyflawni eu dyletswyddau yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith. Disgrifiwn yn yr adroddiad hwn rai o'r newidiadau arwyddocaol rydym wedi'u gwneud i'r canllawiau i ymddiriedolwyr. Ar ddechrau'r flwyddyn hon diwygiwyd ein canllaw ar-lein Yr Ymddiriedolwyr Hanfodol. Bydd byrddau ymddiriedolwyr effeithiol a galluog bob amser yn gweithredu fel y llinell amddiffyn gyntaf a phwysicaf yn erbyn unrhyw broblemau mewn elusennau, a dyma ble mae'n rhaid ac y bydd y rheoleiddiwr a'r sector yn cydweithio.

Mae elusennau bob amser wedi meddalu'r wladwriaeth ac ar eu gorau darparant ymateb dynol i anghenion dynol. Rhaid i hyn barhau i fod yn flaenoriaeth i ni gyd. Ym mlwyddyn dathlu 400 mlynedd ers ei farwolaeth, cofiwn eiriau William Shakespeare: *"God bless thee; and put meekness in thy mind, love, charity, obedience, and true duty!"*

| | |
|---|---|
| William Shawcross | Paula Sussex |
| Cadeirydd, Comisiwn Elusennau | Prif Weithredwr, Comisiwn Elusennau |

# 2 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

## Pwy ydym ni

Y Comisiwn Elusennau yw cofrestrydd a rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adran annibynnol anweinidogol o'r llywodraeth ac yn atebol i'r Senedd. Rydym hefyd yn atebol am arfer ein pwerau lled-farnwrol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) a'r Uchel Lys. Rydym yn gyfrifol am benderfynu a yw sefydliadau'n elusennau ac a ddylid eu hychwanegu ac mewn rhai achosion eu dileu o'r Gofrestr Elusennau ac am gynnal y Gofrestr honno. Gweithredwn o fewn fframwaith cyfreithiol clir a dilynwn bolisïau a gweithdrefnau cyhoeddedig i sicrhau ein bod yn mabwysiadu ymagwedd gymesur.

Ar 31 Mawrth 2016 roedd 165,334 o elusennau (a 16,455 o is-elusennau) ar y Gofrestr ac roeddem yn rheoleiddio £70.93 biliwn o incwm elusennol y llynedd.

**Ein hamcanion statudol**

Mae'r Senedd, trwy Ddeddf Elusennau 2011, yn rhoi pum amcan statudol i ni. sef:

1. Cynyddu ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau.
2. Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r gofyniad budd cyhoeddus.
3. Annog ymddiriedolwyr elusen i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol wrth reoli eu helusennau.
4. Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol
5. Gwella atebolrwydd elusennau i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd.

Mae disgresiwn eang gennym o ran sut y cyflawnwn ein hamcanion.

**Ein cenhadaeth**

Ein cenhadaeth yw bod yn gofrestrydd ac yn rheoleiddiwr effeithiol o elusennau yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn hyrwyddo ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau, gan felly annog rhoi i elusennau ac ymdrechion elusennol yn eu holl ffurfiau.

**Ein dull reoleiddio**

Mae ein dull rheoleiddio yn ceisio bodloni'r disgwyliadau a nodwyd yn Neddf Elusennau 2011. Rydym yn canolbwyntio ar hyrwyddo cydymffurfiaeth ymddiriedolwyr elusen â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, gan ddal elusennau i gyfrif, a chynnal y diffiniad o elusen o dan y gyfraith elusennau, ac felly hyrwyddo ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau.

Ni fyddwn yn goddef camddefnyddio unrhyw elusen neu ei chronfeydd at ddibenion anghyfreithlon neu amhriodol. Byddwn yn effro yn arbennig i dwyll, camddefnydd gan derfysgwyr a diffyg diogelu buddiolwyr agored i niwed, a byddwn yn cymryd camau penderfynol pan fydd angen. Byddwn yn ddewr yn ein defnydd o'n pwerau statudol mewn achosion difrifol.

Mae cyfran sylweddol o'n gwaith wedi'i ymrwymo i fodloni ein hamcan statudol i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol. Gwnawn hyn trwy ddefnyddio ein pwerau i roi caniatâd i ymddiriedolwyr lle y bo angen i weithredu a hefyd trwy ein cyngor a'n harweiniad er mwyn i ymddiriedolwyr ddeall beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i redeg eu helusen yn effeithiol.

Mae ein cenhadaeth, ein datganiad o ddull rheoleiddio a gwerthoedd i'w gweld ar GOV.UK.

**Ein swyddogaethau lled-farnwrol**

Fel cofrestrydd a rheoleiddiwr elusennau, ymgymerwn â swyddogaethau lled-farnwrol yn dilyn cyfraith gwlad a chyfraith statud sy'n llywodraethu elusennau. Mabwysiadwn ymagwedd gadarn wrth arfer ein pwerau, yn gweithredu'n gymesur ac yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau.

Os yw'r gyfraith wedi dyddio, yn aneglur neu'n amhenodol, ac oni bai y teimlwn ein bod wedi ein rhwymo gan gynsail gaeth, rydym yn delio â'r achos yn y ffordd y teimlwn y byddai'r llysoedd yn delio â'r achos. Mae cyfraith gwlad yn cael ei datblygu gan y llysoedd yn sgil newid mewn amodau a gwerthoedd cymdeithasol ac economaidd, a chydnabyddwn hyn yn ein penderfyniadau.

Gellir apelio yn erbyn ein penderfyniadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) a gall rhai o'n penderfyniadau gael eu herio yn yr Uchel Lys hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniadau ar statws elusennol a chofrestru, defnyddio ein pwerau i roi cyngor a chaniatâd ffurfiol, ac yn ein gwaith cydymffurfio yn delio ag ymchwiliadau a chymryd camau adferol yn erbyn ymddiriedolwyr diffygiol ac eraill.

Eleni rydym wedi ymwneud ag ymgyfreitha yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen), yr Uwch Dribiwnlys, yr Uchel Lys a'r Llys Apêl. Mae hyn yn cynnwys achosion wedi'u dwyn yn erbyn ein penderfyniadau, ond hefyd achosion wedi'u dwyn yn rhagweithiol gennym ni i adennill arian a gollwyd neu geisio cyfarwyddiadau'r Llys i ddatrys materion cymhleth neu ddadleuol sy'n effeithio ar elusen. Mae adroddiadau achos wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn ogystal ac yn yr Atodiad cyfreithiol.

**Ein blaenoriaethau strategol hyd at 2018**

Mae ein strategaeth yn rhoi sicrwydd i elusennau a'r cyhoedd y byddwn yn gadarn ein hymagwedd at gamddefnydd a chamreoli. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn ei gwneud hi'n haws ac yn fwy effeithlon i ymddiriedolwyr weithio gyda ni trwy wasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer a rhedeg eu helusennau yn well trwy roi canllawiau rheoleiddio clir, hygyrch ac wedi'u targedu iddynt. Bydd ein strategaeth hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd y comisiwn fel rheoleiddiwr cadarn, rhagweithiol, cymesur, seiliedig ar risg. Mae'n cynnwys pedair blaenoriaeth strategol:

- Blaenoriaeth 1: Diogelu elusennau rhag cael eu camddefnyddio neu eu camreoli
- Blaenoriaeth 2: Galluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn effeithiol
- Blaenoriaeth 3: Annog elusennau i fod yn fwy tryloyw ac atebol
- Blaenoriaeth 4: Gweithredu fel rheoleiddiwr arbenigol ac effeithlon gyda chyllid cynaliadwy

Gallwch weld ein Cynllun Strategol 2015-18 ar GOV.UK.

Gallwch ddarllen am ein prif risgiau yn ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Ein cyllid**

Yn 2015-16 dyrannwyd £23.2 miliwn o refeniw i ni a £2.2 miliwn o gyllid cyfalaf gan Drysorlys EM. Roedd hyn yn cynnwys £3.3 miliwn o gyllid 'buddsoddi i arbed' un-tro mewn systemau digidol a risg newydd, o'r £8 miliwn a roddwyd gan Drysorlys EM yn 2014.

**Ein perfformiad**

Adroddwn ar ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol ac yn erbyn argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o dan 'Adroddiad perfformiad'.

**Sut rydym yn gweithio**

Roedd 285 o aelodau staff gennym ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn parhaol) yn 2015-16 dros y flwyddyn, wedi'u strwythuro mewn pum cyfarwyddiaeth:

- Ymchwiliadau, Monitro a Gorfodi
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gweithrediadau
- Polisi a Chyfathrebiadau

- Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cael eu harwain gan ein Prif Weithredwr.

Gweithiwn ar draws pedwar safle yn Lerpwl, Llundain, Casnewydd a Taunton. Mae swyddfa Casnewydd yn gweithredu'n dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Beth rydym yn ei wneud

**Cofrestru: penderfynu a yw elusennau'n bodloni'r prawf cyfreithiol i gael statws elusennol**

Gwnawn asesiad ffurfiol o bob cais i gofrestru ar sail bob achos unigol gan ddefnyddio ein Fframwaith Risg.

Gwarchodwn ffydd a hyder mewn elusennau trwy gyfyngu'r elusennau sy'n cael eu cofrestru i'r sefydliadau hynny sy'n pasio'r profion cyfreithiol ar gyfer elusen yn unig ac mae'n ofynnol iddynt gofrestru. Rydym wedi cryfhau ein hymagwedd at asesu a yw ymgeiswyr yn wirioneddol elusennol neu beidio. Mae hyn yn cynnwys ymagwedd fwy cadarn at ddilysu'r wybodaeth a gawn.

Rydym hefyd yn gwneud mwy o ddefnydd o'r broses gofrestru i adnabod sefydliadu a allai, er eu bod yn elusennol, godi pryderon llywodraethu neu gydymffurfio ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, a gweithredu dulliau monitro ôl-gofrestru mwy canolbwyntiedig ar gyfer yr elusennau hyn.

Mae modd herio ein penderfyniad i gofrestru neu beidio â chofrestru sefydliad fel elusen neu ddileu'r sefydliad o'r gofrestr yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) gan y sefydliad, ei ymddiriedolwyr, neu rywun a effeithir gan y penderfyniad.

Mae'r Tribiwnlys yn barnu a yw sefydliadau wedi'u sefydlu at ddibenion elusennol ac yn helpu elusennau, y Comisiwn a'r cyhoedd i ddeall y dehongliad a'r datblygiad o'r gyfraith.

**Cynnal y Gofrestr Elusennau**

Ein nod yw sicrhau bod y Gofrestr elusennau yn gywir ac wedi'i diweddaru a bod gwybodaeth allweddol ar gael am ddim i'r cyhoedd ar-lein. Mae ein data yn cael ei ddefnyddio hefyd gan nifer o gyrff cyhoeddus eraill, elusennau a sefydliadau ymchwil fel y sail ar gyfer ystadegau am y sector elusennol yng Nghymru a Lloegr. Am resymau atebolrwydd a thryloywder, gwnawn hi'n ofynnol i elusennau ddarparu gwybodaeth gyhoeddus allweddol, a gwneud hynny'n brydlon. Mae'r ddyfais chwilio'r Gofrestr ar-lein yn arddangos gwybodaeth allweddol am ddibenion a gweithredoedd elusennau. Tynnir sylw ar y Gofrestr at yr elusennau hynny sydd heb gydymffurfio â gofynion am wybodaeth sylfaenol, fel ffeilio ffurflenni blynyddol a chyfrifon, elusennau gyda chyfrifon cymwysedig ac elusennau sy'n destun ymchwiliad statudol

**Rheoleiddiwr arbenigol: ein gwaith rhyngwladol**

Mae tua 14,000 o elusennau sydd wedi cofrestru gyda ni yn gweithio'n rhyngwladol (y tu allan i'r DU ac mae ganddynt incwm o ryw £16.6 biliwn. Mae budd uniongyrchol gan gyhoedd y DU yn rheolaeth dda a rheoleiddio effeithiol yr elusennau hyn.

Pwrpas ein gwaith rhyngwladol yw:

- sicrhau bod cymorth ac arbenigedd digonol ar gael ar gyfer rheoleiddio elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac awdurdodaethau eraill, gan gynnwys:
  - allgymorth wedi'i dargedu i elusennau yn y DU sy'n gweithio'n rhyngwladol ar faterion craidd yn ymwneud â diwydrwydd dyladwy
  - symud arian yn ddiogel a dilysu a rhoi cyfrif am arian, gweithio gyda chyrff mantell i ledaenu canllawiau ac argymhellion
  - gweithredu i atal camddefnydd ac - mewn rhai achosion mewn cydweithrediad â phartneriaid - os oes tystiolaeth o gamddefnydd - er enghraifft, roedd hanner ein

rhybuddion rheoleiddio eleni wedi'u hanelu'n rhannol at elusennau sy'n gweithredu dramor

- sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ddigon ymwybodol o ddatblygiadau ac yn ymateb i ddatblygiadau mewn fframweithiau rhyngwladol ar gyfer rheoleiddio elusennau
- cefnogi cyrff rheoleiddio eraill mewn awdurdodaethau eraill i sefydlu fframweithiau rheoleiddio effeithiol, rheoleiddio'n deg, yn dryloyw ac yn effeithiol drwy rannu arferion gorau, profiad ac offer gweithredol a gweithdrefnau sy'n unigryw i ni
- yn gyfochrog â hyn, helpu i ddatblygu sectorau elusennol iach ac atebol ar draws y byd

Mae peth o'r gwaith hwn wedi'i chyllido'n rhannol gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

**Y Tasglu Gweithredu Ariannol**

Mae'r Tasglu yn gorff rhyng-lywodraethol sy'n gosod y safonau ar gyfer brwydro'r bygythiadau i systemau ariannol rhyngwladol, gan gynnwys gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth. Mae wedi datblygu cyfres o argymhellion gan gynnwys Argymhelliad 8 (A8) ar gyfer y sector elusennol (di-elw). Y Comisiwn yw Arweinydd Arbenigol Llywodraeth y DU ar y Tasglu ar A8.

Y llynedd cynhaliodd y Tasglu ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Nodyn Deongliadol (ND) i A8. Trefnwyd bord gron gyda chynrychiolwyr o'r sector i geisio barn ac adborth ar y diwygiadau arfaethedig i'r ND i fwydo i mewn i'r Tasglu. Bydd y ND wedi'i gwblhau'n derfynol yn 2016.

**Gwaith yn Tsieina**

Yn 2015 cawsom ein gwahodd i gyfrannu at drafodaethau polisi yn Tsieina ar y Gyfraith Elusennau a'r Gyfraith Anllywodraethol Tramor drafft oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd ein harbenigwyr wedi ymweld â Shanghai, Nanjing, a Beijing, wedi'u cefnogi a'u cyllido gan FCO i helpu i ddatblygu cyfraith rheoleiddio effeithiol, cymryd rhan mewn dadleuon cyhoeddus, cyflwyno model rheoleiddio'r Comisiwn, esbonio ymateb y llywodraeth i faterion diweddar ym maes hunanreoleiddio codi arian a chyfrannu at drafodaethau o Bolisi One Belt One Road Tsieina.

**Ymweliadau â ni**

Croesawyd ymweliadau i ni gan weinidogion, rheoleiddwyr ac uwch weision sifil o Tsieina, Bahrain, Moroco, Japan, Hong Kong a Qatar.

**Gwaith gyda Phartneriaid Rhyngwladol, y DU ac Ewropeaidd**

Rydym wedi gweithio â rheoleiddwyr elusennau a sefydliadau anllywodraethol yn y DU a'r UE. Mae ein perthynas ag OSCR (Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) a Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon yn parhau'n gryf, gyda chyfarfodydd rheolaidd i drafod materion polisi a gweithredol rheoleiddiol a gweithio ar y cyd ar arferion cyfrifyddu gydag OSCR.

Eleni cyfarfu'r Fforwm Rheoleiddwyr Elusennau Rhyngwladol yn Nulyn a Belfast. Roedd cynrychiolwyr o Awstralia, Seland Newydd, Singapore, Canada, yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon a Chymru a Lloegr yn bresennol i drafod materion rheoleiddio sy'n effeithio ar eu hawdurdodaethau. Yn ogystal cyfarfu'r Fforwm Rheoleiddio Ewropeaidd, sef rhwydwaith anffurfiol o awdurdodau rheoleiddio, ym Milan i drafod materion rheoleiddio cyffredin.

**Rhoi cyngor ac arweiniad ar reoleiddio**

Disgwyliwn i bob elusen gofrestredig gydymffurfio â'r gyfraith a'n canllawiau rheoleiddio cyhoeddedig.

Mae ein canllawiau yn esbonio dyletswyddau ymddiriedolwyr a'n disgwyliadau rheoleiddio er mwyn i ymddiriedolwyr allu gwneud hyn.

Rhown gyngor rheoleiddio lle y bo angen. Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor rheoleiddio a rown yn cael ei gyhoeddi ar-lein bellach.

Os nad yw elusen yn dilyn ein cyngor a'n harweiniad, gellir defnyddio hyn fel tystiolaeth ar gyfer cymryd camau rheoleiddio pellach.

**Rhoi caniatâd a chydsyniad**

Bydd angen caniatâd y Comisiwn ar elusennau weithiau i wneud pethau fel gwerthu eiddo, talu ymddiriedolwyr, newid amcanion neu awdurdodi trafodion mawr, yn ymwneud â thir yn aml. Mae gwaith wedi dechrau i'w wneud yn symlach i gael caniatâd risg isel.

Os oes llwybr arall i gyflawni'r canlyniad y mae'r elusen am ei gael, dylai'r ymddiriedolwyr ddefnyddio hwn yn hytrach na chysylltu â ni am ganiatâd. Yna gallwn ganolbwyntio ar yr achosion hynny lle mae angen i ni weithredu. Ar gyfer unrhyw newidiadau arwyddocaol, rydym am i ymddiriedolwyr ymgynghori â rhanddeiliaid cyn cysylltu â ni.

**Delio â phroblemau mewn elusennau: ymgysylltu fel rheoleiddiwr**

Rydym yn delio â phroblemau mewn elusennau mewn sawl ffordd wahanol yn dibynnu ar y broblem a pha mor ddifrifol yw'r broblem. Os ydym yn penderfynu ymgysylltu, gall ein hymgysylltiad rheoleiddio amrywio o ddod i'r casgliad bod yr ymddiriedolwyr yn llwyddo i reoli'r materion i gychwyn ymchwiliad statudol.

Mae materion cymhleth, difrifol, newydd a risg uwch yn fwy tebygol o ysgogi ymgysylltiad rheoleiddio ag elusen.

Ein meysydd risg â blaenoriaeth yw: twyll a chamddefnydd ariannol arall o elusennau, diogelu buddiolwyr, yn enwedig plant ac oedolion agored i newid; camddefnyddio elusen at ddibenion terfysgaeth neu feithrin eithafiaeth; achosion arwyddocaol eraill o dor-ymddiriedaeth neu ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith sylweddol ar ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau.

Gweithiwn gydag asiantaethau a rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod problemau yn cael sylw ac osgoi rheoleiddio deuol. Ymgysylltwn hefyd ag ymddiriedolwyr elusen, buddiolwyr a/neu weithwyr a gyda thrydydd partïon, gan gynnwys cynghorwyr cyfreithiol, archwilwyr annibynnol ac archwilwyr ariannol (yn enwedig os oes honiadau o dwyll neu gamddefnydd ariannol).

Mae ystod o bwerau statudol gan y Comisiwn y gallwn eu defnyddio i atal camddefnydd a diogelu asedau elusennol a buddiolwyr. Mae ein pwerau yn cynnwys:

- pwerau casglu gwybodaeth sy'n ein galluogi i gael gwybodaeth neu ddogfennau neu sy'n gofyn i unigolion a enwir gwrdd â ni i ateb cwestiynau
- pwerau diogelu dros dro sy'n ein galluogi i ddiogelu eiddo elusen am gyfnod dros dro tra ein bod yn parhau i ymchwilio'r mater
- pwerau unioni sy'n ein galluogi i weithredu atebion hirdymor i broblemau sy'n codi'n aml ac a ganfyddir trwy ymchwiliad

Os oes pryderon difrifol o gamddefnyddio o fewn elusen, gallwn gychwyn ymchwiliad statudol o dan adran 46 o Ddeddf Elusennau 2011.

## Pwerau newydd yn Neddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016

Mae pasio'r Ddeddf yn garreg filltir bwysig i ni. Bydd y pwerau newydd a roddwyd i ni yn ein helpu i reoleiddio'n fwy effeithiol ac yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd.

Roedd adolygiad 2012 o Ddeddf 2006 gan yr Arglwydd Hodgson wedi argymell y dylai mwy o droseddau arwain at anghymhwyso awtomatig. Mae'r pwerau newydd yn helpu i gau'r mannau gwan y gwyddys amdanynt yn y pwerau presennol ac adlewyrchu'r pwerau a ddefnyddir gan reoleiddwyr modern eraill.

Mae'r pwerau hyn yn cynnwys, er enghraifft, pŵer rhybudd swyddogol a'r pŵer i anghymhwyso unigolion rhag bod yn ymddiriedolwyr a chael swyddi fel uwch reolwyr. Bydd yn helpu i roi sylw i'r gwendidau yn ein pwerau presennol.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cefnogi trafodaethau o'r Bil pan gafodd ei ddadlau yn y Senedd, gan ddarparu cymorth a gwybodaeth i seneddwyr a'r llywodraeth i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei deall yn iawn a bod achos cryf yn cael ei wneud i esbonio pam bod y pwerau hyn yn angenrheidiol. Roedd y cymorth trawsbleidiol cryf a gafodd y Bil hwn yn gadarnhad o'r rôl hollbwysig sydd gennym. Byddwn yn cyfathrebu'r newidiadau hyn i elusennau yn 2016-17 wrth i bob agwedd ar y Ddeddf ddod i rym.

**Monitro elusennau**

Gall monitro, sy'n cynnwys gwaith rhagweithiol i ragweld problemau, gynnwys ymchwil desg, gohebu ag ymddiriedolwyr neu gyfweld â nhw, ymweld ag eiddo elusen ac archwilio ei llyfrau a'i chofnodion.

Gall hyn arwain at roi cyngor rheoleiddio i'r ymddiriedolwyr elusen, a sicrhau bod y cyngor wedi cael ei ddilyn; paratoi Cynllun Gweithredu, cychwyn achos cydymffurfio neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, ymchwiliad statudol. Mae monitro hefyd yn cynnwys dilyn i fyny pryderon neu gwestiynau sy'n codi yn ystod y broses gofrestru neu mewn achos rheoleiddio blaenorol.

# 3 Adroddiad perfformiad

Mae'r adran hon yn esbonio ein cynnydd yn erbyn ein pedair blaenoriaeth strategol a nodir yn ein Cynllun Strategol a gyhoeddwyd yn 2015. Mae hefyd yn edrych ar ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'n dangosyddion perfformiad allanol.

## Blaenoriaeth 1: Diogelu elusennau rhag cael eu camddefnyddio neu eu camreoli

Fel y gwelwyd yn ddiweddar, mae camddefnydd o unrhyw fath mewn elusen yn niweidio enw da'r sector cyfan, boed a yw'r camddefnydd hwnnw yn fwriadol neu'n digwydd trwy gamreoli.

Ers 2013, rydym wedi cryfhau ein hymagwedd at ddelio â chamddefnydd a chamreoli mewn elusennau. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol ac yn faes lle y byddwn yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'n hadnoddau ar gyfer ymgysylltiad rheoleiddiol ag elusennau.

## Y Fframwaith risg wedi'i ddiweddaru, yn seiliedig ar ddata gwell

Mae'r Fframwaith risg yn amlinellu ein hymagwedd at reoleiddio ochr yn ochr â'r Datganiad o ymagwedd rheoleiddio a'n Cynllun Strategol. Diweddarwyd y Fframwaith risg eleni i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ymagwedd fwy cadarn y Comisiwn yn well.

Mae'r Fframwaith risg newydd yn fwy cryno. Mae'n amlinellu ein meysydd risg â blaenoriaeth: twyll a chamddefnydd ariannol arall o elusennau; diogelu buddiolwyr, yn enwedig plant ac oedolion agored i newid; camddefnyddio elusen at ddibenion terfysgaeth neu feithrin eithafiaeth; achosion arwyddocaol eraill o dor-ymddiriedaeth neu ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith sylweddol ar ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau.

Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o ddata i atal a chanfod camddefnydd, ac ynghyd â'r Fframwaith risg, bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio adnoddau ar yr achosion sydd eu hangen fwyaf. Bydd technolegau digidol yn ein helpu hefyd trwy awtomeiddio gweithgareddau risg isel, effaith isel.

## Ymchwiliadau cyflymach a mwy effeithiol

Roedd 135 o ymchwiliadau byw ar ddiwedd y flwyddyn hon (2014-15: 132; 2013-14: 76).

Fodd bynnag, cychwynnwyd 53 o ymchwiliadau newydd eleni, (2014-15: 103). Roedd y gostyngiad hwn i'w briodoli'n bennaf i lai o achosion o ddiffyg gweithredu dwywaith yn cael eu cychwyn yn ogystal â mwy o achosion yn cael eu trin fel achosion cydymffurfio, heb gychwyn ymchwiliad. Rydym hefyd yn ymyrryd yn gynharach trwy ymweliadau cydymffurfio ac ymweliadau rhagweithiol sy'n arwain at Gynlluniau Gweithredu sy'n cael eu monitro.

Mae ein hachosion newydd yn fwy cymhleth yn aml ac yn yr achosion mwyaf difrifol mae'n golygu gweithio gydag asiantaethau eraill. Maent yn gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o'n pwerau yn fwyfwy cymhleth.

Buom yn defnyddio ein pwerau ar draws yr holl dimau gwaith achos yn gynharach yn ein hachosion ac yn fwy cadarn wrth i ni ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau rheoleiddio. Mae lefelau defnydd o bwerau yn parhau'n debyg i'r flwyddyn ddiwethaf yn fras - 1,073 (2014-15: 1,062).

Cychwynnwyd 1,327 (2014-15: 1,182) o achosion cydymffurfiaeth weithredol a daeth 1,309 (2014-15: 1,257) i ben; a chyhoeddwyd 25 o adroddiadau achos (2014-15: 29) i helpu ymddiriedolwyr i ddysgu oddi wrthynt.

Cyhoeddwyd 14 hysbysiad o'n bwriad i ddiswyddo pobl fel ymddiriedolwyr (2014-15: 4) a diswyddwyd naw ohonynt oherwydd eu hymddygiad gwael, (2014-15: 4), felly maent wedi'u hanghymwyso'n barhaol erbyn hyn rhag gweithredu mewn elusennau. Rydym hefyd wedi penodi pedwar rheolwr dros dro newydd, sy'n

gam dros dro a rhagweithiol i reoli elusen lle y bu camymddwyn neu gamreoli neu mae angen diogelu ei heiddo, gan gymryd cyfanswm y rheolwyr dros dro sy'n rheoli elusennau ar 31 Mawrth 2016 i 13.

Cyhoeddwyd 35 o adroddiadau ymchwiliad (2014-15: 39) i helpu elusennau eraill i ddysgu o'n hymchwiliadau a gwneud elusennau yn atebol i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd. Rhoddwyd sylw helaeth i'r rhain yn y wasg genedlaethol yn 2015-16 ac fe'u defnyddiwyd gan siaradwyr y Comisiwn mewn sesiynau hyfforddi ymddiriedolwyr. Fe'u hanfonwyd at ymddiriedolwyr yn ein cylchlythyrau chwarterol hefyd.

**Adroddodd elusennau 2,117 o ddigwyddiadau difrifol i ni yn 2015-16 (2014-15: 2,129).**

Mae hawl gan elusennau, ymddiriedolwyr ac eraill a effeithir gan y defnydd o'n pwerau cydymffurfio apelio i dribiwnlys arbenigol, y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) neu, mewn rhai achosion, gwneud cais am adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol. Gwelsom sawl achos cymhleth yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn, a oedd yn ymrwymiad adnoddau sylweddol i'n timau ymchwiliadau a chyfreithiol ac yn her i gwblhau'r achosion hyn yn gyflym.

Rydym wedi parhau i fod yn llwyddiannus iawn wrth amddiffyn ein penderfyniadau ymchwiliadau mewn ymgyfreitha. O'r naw achos Tribiwnlys a ddaeth i ben y flwyddyn hon ar ymchwiliadau, cafodd pob un ei benderfynu o blaid y Comisiwn. Roedd nifer yr heriau i'n gwaith wedi parhau'n weddol fach o'u cymharu â nifer y pwerau ymchwilio a ddefnyddiwn. Mae hyn yn rhoi'r hyder i ni fod ein gwaith ymchwilio wedi'i dargedu ac yn gymesur a'n bod yn esbonio'r rhesymau dros ddefnyddio ein pwerau yn effeithiol.

**Keeping Kids Company**

Pan godwyd pryderon gan dri chyn weithiwr yng Ngorffennaf 2015, gweithredodd y Comisiwn o fewn 24 awr i honiadau o gamreoli ariannol. Ar 20 Awst yn sgil pryderon cyhoeddus cychwynnwyd ymchwiliad statudol ffurfiol i'r materion a godwyd am weinyddiaeth, llywodraethu a rheolaeth ariannol, a dysgu gwersi ehangach i elusennau ac ymddiriedolwyr eraill. Adeg ysgrifennu, mae'r ymchwiliad yn parhau. Rydym hefyd wedi rhoi ymateb ysgrifenedig i argymhellion ymchwiliad y Comisiwn Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol i fethiant y Cwmni. Gallwch weld ein hymateb ar ei wefan.

**Etholiadau**

Sefydlwyd tîm ymateb brys yn y cyfnod yn arwain at yr Etholiad Cyffredinol yn 2015 i sicrhau ein bod yn ymateb yn gyflym ac yn gyson i gwynion ac ymholiadau am elusennau ac ymgyrchu gwleidyddol. O Hydref 2014 - Mai 2015 cawsom 57 ymholiad am elusennau ac ymgyrchu gwleidyddol. Mae un deg saith o achosion wedi codi pryderon ynghylch diffyg cydymffurfio.

**Codi arian**

Roedd y materion codi arian a gafodd y sylw mwyaf yn ystod y flwyddyn yn achos o bryder mawr i ni. Nid yw'r Comisiwn yn gyfrifol am reoleiddio arferion codi arian, ond gwyddom fod arferion codi arian gwael yn effeithio ar ffydd a hyder mewn elusennau a daliwn ymddiriedolwyr i gyfrif am eu goruchwyliaeth o weithgareddau codi arian eu helusen.

Rhoddwyd tystiolaeth i Bwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol a fwydodd i mewn i'w adroddiad 'Anghydfod Codi Arian Elusennol 2015'.

Rhoddwyd tystiolaeth hefyd i Adolygiad Etherington o Hunanreoleiddio Codi Arian. Gwnaeth yr adolygiad argymhellion i ddiwygio a chryfhau hunanreoleiddio. Cefnogwn y rheoleiddiwr elusennau newydd a ariennir gan y sector elusennol (a sefydlwyd yn 2016) ac wedi secondio uwch aelod o staff i helpu i sefydlu'r corff newydd ac adeiladu perthynas weithio agos rhyngom.

Rydym wedi cyhoeddi canllaw (CC20) sy'n egluro i ymddiriedolwyr mai nhw sydd â'r atebolrwydd terfynol. Mae'n amlinellu chwe egwyddor glir y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr eu dilyn:

- cynllunio'n effeithiol

- goruchwylio eich codwyr arian
- diogelu enw da ac asedau eraill yr elusen
- cydymffurfio â'r gyfraith codi arian
- dilyn safonau cydnabyddedig
- bod yn agored ac yn atebol

Gallwn reoleiddio nifer fach o achosion codi arian. Er enghraifft, yn 2015-16 roedd yn ymddangos bod nifer fach o elusennau wedi'u sefydlu'n bennaf fel busnes codi arian er mwyn i'r ymddiriedolwyr a/neu gyfeillion gael eu talu fel codwyr arian. Roeddent yn darparu grantiau bach iawn er mwyn iddynt allu dangos bod gweithgarwch elusennol ond ymddangosai mai'r buddiolwyr go iawn oedd y codwyr arian a'r staff. Roeddent wedi cynhyrchu cyfrifon a chyflwyno eu ffurflen flynyddol mewn pryd hefyd, gan eu cadw o dan ein radar. Fodd bynnag, roedd canran y gwir weithgareddwch elusennol yn isel iawn. Nid yw hyn yn dderbyniol a chafodd y tair elusen eu dileu o'r Gofrestr yn 2015-16 ac rydym yn rhoi sylw i ragor o achosion eleni.

**Adroddiadau achos ar gamddefnydd: Ymddiriedolwyr wedi'u hanghymhwyso ar gyfer dedfrydau heb ddarfod a'r elusen yn cau**

**GYSO Limited**

Cofrestrodd yr elusen ym Mehefin 2014, yn dilyn ymgyrch llwyddiannus ar y cyfrangau cymdeithasol a gododd ymwybyddiaeth o ganser y brostad o'r gaill.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Yn ôl erthygl yn y cyfryngau roedd un o'r ymddiriedolwyr wedi ei gael yn euog o ddwyn. Mae'r gyfraith elusennau yn gwahardd pobl sydd â dedfryd heb ddarfod am drosedd yn cynnwys anonestrwydd rhag bod yn ymddiriedolwr.

**Y camau a gymerwyd:** Gofynnwyd i'r ymddiriedolwr roi gwybod i ni am ei ddedfryd ond ni chafwyd unrhyw ymateb. Ysgrifennwyd yn unigol at ymddiriedolwyr yr elusen hefyd. Cafodd dau o'r llythyrau eu dychwelyd i'r anfonwr ac ni chawsom ymateb gan y trydydd ymddiriedolwr. Roedd tystiolaeth bod yr elusen yn parhau i fod yn weithredol, er bod y cofnod o'r rhoddion yn dangos mai dim ond swm bach o arian gafodd ei godi. Roedd Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig dileu'r cwmni elusennol hwn o'i Gofrestr am beidio â chyflwyno dogfennau cyfreithiol gofynnol. Roedd y Comisiwn wedi monitro'r broses ac ar ôl ei dileu, cafodd yr elusen ei dileu o'n Cofrestr ni yn syth.

**Effaith ein hymyrraeth:** Cafodd yr elusen ei dileu o'n Cofrestr. Rhoddwyd gwybod i'r ddau blatfform rhoddion elusennol perthnasol bod yr elusen wedi diddymu.

**Pryderon diogelu yn arwain at gynllun gweithredu ar gyfer elusen**

**Poverty Relief Charity**

Prif weithgareddau'r elusen yw lleddfu tlodi, hyrwyddo addysg a'r ffydd Gristnogol yn unrhyw ran o'r wlad. Bob Nadolig mae'r elusen yn rhedeg apêl blwch esgidiau, lle mae rhoddwyr yn llenwi blychau esgidiau gyda rhoddion i deuluoedd mewn angen, ac mae'r elusen yn dibynnu ar gymorth plant ysgol a phobl ifanc i bacio blychau yn yr ysgol.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Codwyd pryderon gyda ni am unigolyn y tybiwyd ei fod yn wirfoddolwr yn yr elusen. Cawsom wybod bod yr unigolyn wedi gweithredu'n groes i'r cyfyngiadau a roddwyd arno ar ôl iddo ei gael yn euog o droseddau rhywiol. Roedd hyn wedi codi pryderon difrifol am oruchwyliaeth yr ymddiriedolwyr o weithgareddau'r elusen ac yn benodol, y prosesau yn eu lle i ddiogelu plant neu oedolion agored i niwed sy'n dod i gysylltiad â'r elusen.

**Y camau a gymerwyd:** Cysylltwyd â'r elusen i sefydlu manylion y digwyddiad a arweiniodd at dorri gwaharddiad yr unigolyn rhag dod o fewn pellter arbennig o ysgolion, pa gamau roedd yr ymddiriedolwyr wedi'u cymryd ers hynny, a sut mae'r elusen yn diogelu plant a phobl agored i niwed.

**Effaith ein hymyrraeth:** Anfonwyd Cynllun Gweithredu i'r elusen yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr roi sylw i'n pryderon diogelu difrifol iawn. Cydweithredodd yr ymddiriedolwyr â'r Cynllun Gweithredu.

## Gweithredu rhagweithiol yn erbyn camddefnyddio elusennau a gwaith dilynol

Gweithiwn i ragweld, canfod, ac atal problemau rhag codi mewn elusennau. Defnyddiwn ein Fframwaith risg i fonitro'n rhagweithiol ac ymgysylltu ag elusennau a nodwyd fel rhai sydd â risg uchel neu sy'n gweithredu mewn meysydd risg uchel, i gymryd camau ataliol, neu gynnig cyngor ataliol ac allgymorth.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith achos monitro yn cael ei gynhyrchu'n rhagweithiol yn seiliedig ar ffactorau risg, gyda ffocws arbennig ar flaenoriaethau strategol allweddol y Comisiwn sef twyll, troseddau ariannol, atal terfysgaeth ac eithafiaeth a diogelu buddiolwyr agored i niwed.

Yn 2015-16, cychwynnwyd 424 o achosion monitro a chwblhawyd 405 o achosion. Cynhaliwyd 106 o ymweliadau ymchwilio a chydymffurfio (2014-15: 116).

Er enghraifft, ymgysylltwyd yn rhagweithiol â sampl o elusennau oedd wedi nodi bod buddiolwyr agored i niwed ganddynt i gadarnhau bod gweithdrefnau diogelu priodol ganddynt yn eu lle. Nodwyd bod gan y rhan fwyaf o elusennau y cysylltwyd â nhw bolisïau diogelu a gwiriadau Diogelu a Gwahardd yn eu lle. Os nad oedd polisïau priodol gan elusennau yn lle, cawsant Gynllun Gweithredu. Byddwn yn gwirio i sicrhau bod yr elusennau hyn yn gwneud y newidiadau gofynnol.

Adolygwyd 377 set o gyfrifon fel rhan o'n gweithgareddau monitro sy'n ffurfio rhan o'r 986 set o gyfrifon a archwiliwyd gan ein tîm o arbenigwyr cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn monitro elusennau sydd newydd gofrestru os oes pryderon gennym nad ydynt efallai'n gweithredu fel y nodir adeg cofrestru, gan ymgysylltu â 42 ohonynt y llynedd. Gallai hyn fod o ganlyniad i bryderon am lefelau isel o weithgarwch elusennol neu unigolion sy'n cymryd rhan yn yr elusen. Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag elusennau sydd newydd gofrestru sy'n gweithredu mewn meysydd risg uchel yn rhyngwladol.

Rydym bob amser yn ymrwymo i ddilyn i fyny'r achos os ydym wedi mynnu bod ymddiriedolwyr yn cymryd camau penodol i gael sicrwydd eu bod nhw wedi gweithredu ar ein cyngor rheoleiddio.

Mae ein gwaith dilynol eleni wedi cynnwys:

- gwirio bod pob elusen sydd wedi cael Cynllun Gweithredu wedi cwblhau'r camau gofynnol; roedd 137 o Gynlluniau Gweithredu
- ymgysylltu â sampl o elusennau oedd wedi adrodd am ddigwyddiadau difrifol o'r blaen yn ymwneud â thwyll, troseddau ariannol neu ddiogelu, i geisio sicrwydd eu bod nhw wedi gweithredu ar y cyngor a roddwyd iddynt
- ymgysylltu ag elusennau oedd wedi datgan dim incwm a gwariant ar eu Ffurflen Flynyddol i wirio bod yr wybodaeth yn gywir
- gweithredu ar atgyfeiriadau a datgeliadau gan reoleiddwyr eraill os oedd pryderon ynghylch diffyg cydymffurfio
- gweithredu ar atgyfeiriadau yn ymwneud â chronfa ddata twyll CIFAS

Eleni, er mwyn gwneud ein gwaith achos yn haws ei ddeall, cyhoeddwyd canllawiau ar yr hyn y gall ymddiriedolwyr ei ddisgwyl gennym ni a beth rydym ni yn ei ddisgwyl gan ymddiriedolwyr.

## Ymgysylltu'n effeithiol â rheoleiddwyr eraill ac asiantaethau'r llywodraeth - dulliau gwell o rannu data

Gweithiwn gyda rheoleiddwyr ac ar draws y llywodraeth ac fel rhan o hyn cyfnewidiwn wybodaeth ac atgyfeiriadau gyda Chyllid a Thollau EM a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Yn 2015, datblygwyd ein

strategaeth i rannu gwybodaeth â mwy o asiantaethau'r llywodraeth. Mae hyn wedi arwain at nifer o gytundebau newydd ag asiantaethau gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

O ganlyniad i'n strategaeth, cynyddodd cyfnewid gwybodaeth ag asiantaethau eraill i 2,332 o weithiau (2014-15: 2,131); a thyfodd nifer yr achosion lle y gofynnwyd am wybodaeth ac y cafwyd gwybodaeth gan 36% i 922 (2014-15: 677).

**Astudiaeth achos: Gweithio ar y cyd â'r heddlu**

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Roedd Mr Adeel Ul-Haq yn gofyn am roddion elusennol trwy ei gyfrif Trydar i gefnogi 'confois cymorth dyngarol' ac ymdrechion cymorth eraill i helpu'r rhai a effeithir gan yr argyfwng yn Syria. Rhannodd Uned Atal Terfysgaeth Gogledd Ddwyrain Lloegr wybodaeth â ni a awgrymai fod risg i'r cronfeydd elusennol hynny oedd yn cael eu dal yn bersonol gan Mr Ul-Haq.

**Y camau a gymerwyd:** Gweithredwyr ar unwaith i ddiogelu'r cronfeydd elusennol roedd Mr Ul-Haq yn eu dal yn bersonol, gan rewi'r cyfrif banc lle cawsant eu dal a gorchymyn i'r banc drosglwyddo'r cronfeydd hynny i elusen i helpu'r rhai a effeithir gan yr argyfwng. Ym Medi 2014 cafodd ei ddiswyddo o'i rôl fel ymddiriedolwr elusen. Erbyn hyn mae wedi'i anghymhwyso yn gyfreithiol rhag bod yn ymddiriedolwr elusen.

**Effaith ein gwaith ar y cyd ag Uned Atal Terfysgaeth Gogledd Ddwyrain Lloegr:** Diogelwyd cronfeydd elusennol a chynorthwywyd elusennau eraill i'w defnyddio ar gyfer y diben y cawsant eu rhoi. Yn Chwefror 2016 cafwyd Mr Ul-Haq yn euog o drosedd cyllido terfysgaeth o llunio cytundeb cyllido yn groes i adran 17 o Ddeddf Terfysgaeth 2000. Fe'i cafwyd yn euog o helpu eraill i gyflawni trosedd derfysgol hefyd, yn groes i adran 5 o Ddeddf Terfysgaeth 2006.

**Gweithio ar y cyd ag OFGEM**

**Age UK**

Mae'r elusen yn ceisio hyrwyddo unrhyw ddibenion elusennol er budd pobl hŷn. Mae rhwydwaith o elusennau Age UK lleol hefyd sy'n cael eu cofrestru ar wahân, a sefydliadau ar wahân cyfreithiol eraill ac is-gwmnïau sy'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau masnachol.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Awgrymodd adroddiadau yn y cyfryngau yn Chwefror 2016 fod yr elusen wedi derbyn £6 miliwn y flwyddyn gan y cyflenwr ynni E.ON i hyrwyddo tariff ynni dwy flynedd Age UK i bobl hŷn a bod y tariff yn fwy drud na'r tariffau eraill oedd ar gael.

**Y camau a gymerwyd:** Gweithiodd y Comisiwn â'r rheoleiddiwr ynni Ofgem. Cychwynnwyd achos cydymffurfio i ystyried a oedd yr ymddiriedolwyr elusen wedi cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn briodol o ran llywodraethu, goruchwylio trefniadau'r is-gwmni masnachu a chytundebau ag E.ON.

Penderfynwyd bod Age UK wedi cydymffurfio â'i brosesau ond nid oedd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i risgiau targedu buddiolwyr gyda chynnyrch masnachol mewn maes lle roedd yr elusen hefyd yn ymgyrchu ar ran ei buddiolwyr.

Gofynnwyd i Age UK gynnal proses adolygu dulliau llywodraethu ac adolygiad cynhwysfawr i benderfynu a oedd cymryd rhan yn y farchnad ynni yn parhau i fod er budd gorau'r elusen.

Argymhellwyd ei bod yn sicrhau trefniadau masnachol a bod y bartneriaeth yn cael ei monitro. Argymhellwyd hefyd bod yr elusen yn adolygu ei llenyddiaeth ar-lein i sicrhau bod y cynhyrchion a gymeradwyir yn esbonio ar ba sail y mae'r cynhyrchion yn cael eu cymeradwyo gan Age UK.

**Effaith ein hymyrraeth:** Mae Age UK wedi comisiynu adolygiad i sicrhau nad yw ei weithgareddau masnachu yn tanseilio ei dibenion elusennol. Bydd ymddiriedolwyr yn cwrdd i drafod yr argymhellion eraill ym mis Mai. Mae'n rhaid i'r sector ehangach ystyried a fyddai eu gweithgareddau masnachol yn cael eu croesawu gan roddwyr, ac ystyried eu henw da wrth wneud penderfyniadau codi arian.

Ym mis Hydref cynhaliwyd y gynhadledd genedlaethol lwyddiannus gyntaf ar y cyd ar atal twyll elusennol â'r Panel Cynghori ar Dwyll. Cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol ar y cyd â'r Panel ar y themâu allweddol ac arferion gorau.

Ym mis Hydref lansiwyd Grŵp Atal Twyll y Sector Elusennol, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd dros 30 o elusennau, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn i nodi risgiau twyll sy'n dod i'r amlwg, rhannu arferion da a helpu elusennau i wella gallu'r sector i atal twyll.

**Sefydliadau wedi'u cofrestru fel elusennau gyda dibenion nad ydynt yn gweithredu er budd cyhoeddus**

**Help Africa Charity**

Amcanion yr elusen oedd atal neu leddfu tlodi a rhoi cymorth i bobl unrhyw le yn y byd sydd wedi dioddef rhyfel neu drychineb naturiol. Esboniodd cais yr elusen y byddai'n helpu buddiolwyr yn Affrica yn bennaf.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Cysylltodd Cyllid a Thollau EM (HMRC) â ni yn Ebrill 2015 am wybodaeth i helpu gyda'i hymchwiliad i geisiadau twyllodrus honedig ar gyfer Cymorth Rhodd gan yr elusen. Darparwyd yr wybodaeth ac ar gais HMRC ni chychwynnwyd ein hymchwiliad ein hunain. Ym Mehefin 2015 dywedodd HMRC wrthym fod dau unigolyn, un ymddiriedolwr presennol ac un cyn ymddiriedolwr, wedi cael eu cyhuddo o droseddau o dan Ddeddf Twyll 2006.

**Y camau a gymerwyd:** Nid oedd HMRC wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod yr elusen wedi gwario arian i fodloni ei hamcanion neu gefnogi'r ceisiadau cymorth rhodd roedd yr elusen wedi'u cyflwyno. Daethom i'r casgliad nad oedd yn gweithredu at ddiben elusennol.

**Effaith ein hymyrraeth:** Dilëwyd Help Africa o'r Gofrestr ar y sail ei bod hi'n ymddangos iddo gael ei sefydlu a'i weithredu at ddiben preifat anelusennol. Roedd cydweithio'n agos â HMRC wedi helpu gydag ymchwiliad llwyddiannus HMRC.

## Annog y cyhoedd i roi'n fwy diogel

Cynhaliwyd pum ymgyrch eleni i annog y cyhoedd i roi'n fwy diogel adeg Eid, y Nadolig, Ramadan, ac yn ystod argyfwng y ffoaduriaid a daeargryn Nepal, gan gysylltu'r ymgyrchoedd hyn â'n canllawiau rhoi'n ddiogel. Ar gyfer ymgyrch Ramadan, er enghraifft, roedd sylw yn y cyfryngu yn cynnwys 46 o gyfweliadau radio a phum rhaglen radio arall, ochr yn ochr â sylw ar y rhaglen materion cyfoes *'Living the Life'* ar y Sianel Islamaidd; cafodd sylw ar-lein ac yn y cyfryngau print lleol hefyd. Roedd posibilrwydd y gallai'r ymgyrch gyrraedd sawl miliwn o bobl.

## Blaenoriaeth 2: Galluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn effeithiol

Mae 850,000 o ymddiriedolwyr elusennau yn cael eu rheoleiddio gennym ni yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnwys 950,000 o swyddi ymddiriedolwyr. Roedd rhyw 100,000 o swyddi wedi gweld newid ymddiriedolwr y llynedd - bron 1 ym mhob 10. Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr di-dâl, weithiau gydag ychydig o wybodaeth yn unig am yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ymddiriedolwr.

Mae'n rhan hollbwysig o'n rôl reoleiddio, ac yn flaenoriaeth strategol, i alluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn effeithiol, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau elusennol. Gwnawn hynny o fewn cyllideb sydd wedi lleihau, felly ni allwn gynnig cyngor un i un yn aml iawn.

## Gwasanaethau digidol gwell a mwy ystyriol o'r defnyddiwr

Fel rhan o'n Rhaglen Drawsnewid rydym wedi datblygu strategaeth ddigidol gynhwysfawr. Yn ganolog i'r strategaeth yw sefydlu teithiau cwsmeriaid da sy'n cynnig modd i elusennau gael mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, a rheoli diweddariadau ar-lein dyddiol eu hunain.

Mae hyn yn cynnwys ffeilio ffurflenni blynyddol a chyfrifon ar-lein a bydd yn cynnwys newid darpariaethau dogfen lywodraethol, fel newid enw elusen. Yn ogystal, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wella'r broses o gael a newid cyfrineiriau ar-lein, diweddaru manylion elusen a rhoi gwybod i ni am newidiadau o fewn elusennau.

Un o effeithiau awtomeiddio gwasanaethau risg isel fel y rhain yw y gallwn ail-leoli staff i waith mwy strategol - gan ganolbwyntio ar elusennau sydd angen mwy o graffu. Bydd hefyd yn gwella ansawdd data ar elusennau ar gyfer ein defnydd ni a defnydd y cyhoedd.

Un o'r prosiectau digidol yw proses cofrestru ar-lein well a ddechreuodd y Comisiwn ei threialu ym Mawrth 2016.

**Proses gofrestru well**

Mae nifer y ceisiadau i gofrestru fel elusen wedi bod yn cynyddu am dair blynedd, ac yn 2015-16 roedd i fyny 14% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd hefyd yn nifer y ceisiadau i gofrestru ar gyfer sefydliadau corfforedig elusennol, i fyny 29% i 2,911 (2014-15: 2,248).

Er gwaetha'r cynnydd sylweddol hwn, cyflymwyd y broses gofrestru, gydag amserau cofrestru cyfartalog i lawr o 62 diwrnod ym mis Mawrth 2015 i 58 diwrnod ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan. Rydym wedi gweithio i sicrhau bod y broses yn parhau'n gadarn hefyd.

Yn 2015-16 cafwyd 8,198 o geisiadau (2014-15: 7,192), ac o'r rhain cafodd 5,169 eu cofrestru (2014-15: 4,648). Mae hyn yn golygu nad oedd 2,644 o geisiadau (2014-15: 3,333) wedi arwain at gofrestru ar ôl i ni geisio gwybodaeth bellach. Gwrthodwyd 90 o geisiadau yn ffurfiol, (2014-15: 34).

Edrychwyd ar fanylion elusennau ar ein cofrestr ar-lein 8.1 miliwn o weithiau (2014-15: 7.5 miliwn).

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithio i ddatblygu ein proses gofrestru ar-lein sydd yn fyw erbyn hyn. Mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Y nod yw ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr roi mwy o'r wybodaeth y mae ei hangen arnom i wneud penderfyniadau cynnar. Bydd yn cynnig modd iddynt gofrestru'n gyflymach trwy sicrhau eu bod yn anfon yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom i wneud penderfyniad. Ar hyn o bryd mae bron 20% o geisiadau yn anghyflawn; mae mynd yn ôl i elusennau i geisio rhagor o wybodaeth yn cymryd amser.

Mae'r canlyniadau cynnar iawn yn y tair wythnos hyd at ddiwedd Mawrth yn edrych yn gadarnhaol, gyda thua 20% o'r 70 o geisiadau a aseswyd yn barod i'w cofrestru ar unwaith o'i gymharu â 5% o dan yr hen broses.

Eleni roedd naw apêl gofrestru yn parhau yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen), nifer fach o'i gymharu â nifer y penderfyniadau cofrestru a wnaethpwyd.

O'r pedwar achos tribiwnlys a ddaeth i ben eleni, cafodd un ei benderfynu o blaid y Comisiwn (Cambridgeshire Target Shooting Association, CTSA), cafodd un ei wrthdroi (penderfyniad y Comisiwn ar Independent Press Regulation Trust, IPRT) (gweler yr Atodiad cyfreithiol) a chafodd dau achos eu tynnu'n ôl gan yr Apelyddion. Roedd pum achos yn parhau ar ddiwedd 2015-16.

**Sefydliad yn apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â'i gofrestru fel elusen**

**Cambridgeshire Target Shooting Association (CTSA)**

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Roedd CTSA wedi apelio yn erbyn ein penderfyniad i beidio â'i gofrestru fel elusen. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn ar y sail nad oedd wedi'i sefydlu bod saethu targedau fel y gwneir gan CTSA yn hybu iechyd, ac felly ni ellid dweud bod CTSA yn hyrwyddo chwaraeon amatur at ddibenion Deddf Elusennau 2011.

**Y camau a gymerwyd:** Cadarnhaodd y Tribiwnlys bod rhaid i CTSA brofi, ar ôl pwyso a mesur, bod y sgil neu'r ymdrech sy'n rhan o'r gamp yn hybu iechyd. Cyflwynodd CTSA a'r Comisiwn dystiolaeth arbenigol ar fuddion iechyd posibl saethu targedau.

**Effaith cyfranogiad y Comisiwn/Tribiwnlys yn yr achos:** Gwrthododd y Tribiwnlys apêl CTSA. Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad fod saethu targedau fel y gwneir gan CTSA yn cynnwys nifer o weithgareddau neu ddisgyblaethau ar wahân ac ni ddangoswyd eu bod yn hybu iechyd. Ymysg pethau eraill cadarnhaodd y Tribiwnlys fod ein penderfyniad i ofyn am dystiolaeth gadarn i gefnogi buddion iechyd honedig saethu yn un cywir.

Mae adroddiad llawnach ar yr achos hwn i'w weld yn yr Atodiad cyfreithiol.

## Ffyrdd newydd o gyfathrebu ag ymddiriedolwyr

Archwiliwyd ffyrdd newydd o gyrraedd ymddiriedolwyr i roi'r offer a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf.

Ers 2014 rydym wedi bod yn e-bostio cylchlythyr chwarterol, 'Newyddion y Comisiwn Elusennau', i bob ymddiriedolwr y mae gennym gyfeiriad e-bost ar eu cyfer, sef 245,000 o ymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2016, a'u diweddaru ar yr hyn y mae angen iddynt ei wybod. Rydym hefyd yn cyfathrebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol i ledaenu canllawiau newydd a hyrwyddo negeseuon rheoleiddio cyffredinol, gan ddilyn thema wahanol bob mis.

Rydym yn gweithio ar borthol ar-lein newydd i elusennau a fydd yn cynnig modd i ni anfon canllawiau wedi'u targedu at ymddiriedolwyr. Er enghraifft, gallai ymddiriedolwyr gael gofynion adrodd yn ôl maint eu helusen. A bydd ymddiriedolwyr yn gallu cael hysbysiadau pan fydd ein canllawiau yn newid.

Cydnabyddwn bwysigrwydd deall y sector rydym yn ei reoleiddio, ac mae hyn yn cynnwys cael deialog agored ag elusennau dylanwadol a'u harweinwyr. Mae gan bob un o'n cyfarwyddwyr raglenni unigol o ymgysylltu a thrafod ag elusennau allweddol ar draws yr amrywiaeth o is-sectorau, dibenion a gweithgareddau a gynrychiolir ar y Gofrestr. Mae hyn yn rhoi cyfle ar gyfer trafodaethau anffurfiol a myfyrio ar faterion ehangach ac yn rhoi mewnwelediad i ni i'r blaenoriaethau cyfredol ac yn y dyfodol a phryderon i elusennau. Mae ein rhaglen reolaidd o anerchiadau a chymryd rhan mewn trafodaethau bord gron a seminarau yn rhoi mewnwelediad pellach i ni.

### Sylw yn y cyfryngau

Trwy gydol y flwyddyn defnyddiwyd y cyfryngau i ledaenu ein gwaith ymchwil a chanllawiau a thynnu sylw at faterion i elusennau.

### Pam nad yw ymddiriedolwyr yn ffeilio mewn pryd?

Yn Rhagfyr 2015 cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar yr hyn sydd, yn ein barn ni, yn rhesymau anghredadwy ac afrealistig y mae ymddiriedolwyr yn eu rhoi dros fethu â ffeilio eu hadroddiadau blynyddol a chyfrifon. Roedd hyn wedi ein helpu i wneud pwynt difrifol am bwysigrwydd cyflwyno cyfrifon mewn pryd oherwydd cafodd cryn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol a'r sector elusennol.

Rydym hefyd yn gwneud mwy o ddefnydd o rybuddion rheoleiddio sy'n rhoi rhybudd cynnar i elusennau ynghylch achosion o dwyll sy'n dod i'r amlwg o'r risgiau eraill y gallent eu hwynebu. Eleni cyhoeddwyd naw rhybudd gan gynnwys yr un cyntaf rhagweithiol wedi'i dargedu at 2,400 o elusennau a nodwyd fel rhai sydd â phartneriaethau masnachol yn dilyn nifer o bryderon a godwyd gyda ni'r flwyddyn hon. Mae'r sylw arwyddocaol yn y cyfryngau wedi helpu i gyfleu'r neges i elusennau ac ymddiriedolwyr. Roedd eraill yn adlewyrchu'r risg gynyddol o dwyll ar-lein, gan gynnwys rhybuddion am alwadau cribddeiliaeth ar-lein a thwyll mandad.

Rydym wedi dechrau ffrydio ein cyfarfodydd cyhoeddus chwarterol ar-lein er mwyn i fwy o ymddiriedolwyr allu cymryd rhan, gan ddechrau gyda'n cyfarfod yn Southampton ar 29 Chwefror 2016. Rydym hefyd yn parhau i roi pwys ar ryngweithio wyneb yn wyneb ag elusennau ac ymddiriedolwyr os yw ein hadnoddau yn caniatáu hynny. Y llynedd roeddem wedi cymryd rhan mewn 60 o ddigwyddiadau a chyfarfodydd allgymorth, gan gyrraedd tua 1,900 o gynrychiolwyr o 900 o elusennau. Trwy ein hanerchiadau cafwyd ymgysylltiad wyneb yn wyneb â miloedd mwy o ymddiriedolwyr ac elusennau.

**Rhoi arweiniad clir i ymddiriedolwyr**

Yn ogystal â chyfathrebu ein gwaith yn well, rydym hefyd wedi gweithio'n galed i ddefnyddio steil cliriach, symlach ar gyfer ein canllawiau ysgrifenedig yn 2015-16 i'w gwneud yn fwy hygyrch i bob ymddiriedolwr, ac rydym wedi defnyddio fideo, graffeg a blogiau hefyd i helpu i gyfleu'r negeseuon.

**Yr ymddiriedolwr hanfodol**

Ym mis Gorffennaf, yn dilyn ymgynghori helaeth, cyhoeddwyd fersiwn newydd o'n canllaw craidd i ymddiriedolwyr: Yr ymddiriedolwr hanfodol: beth mae angen i chi wybod, beth mae angen i chi wneud (CC3).' Mae'n amlinellu'r chwe phrif ddyletswydd y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â nhw pan fyddant yn rhedeg eu helusennau ac rydym yn eu dal nhw i gyfrif yn eu herbyn. Mae'r canllaw hwn yn ddeunydd darllen hanfodol i bob ymddiriedolwr a buom yn ei hyrwyddo ers iddo gael ei gyhoeddi.

Y chwe dyletswydd:

- gwneud yn siŵr bod eich elusen yn cyflawni ei dibenion er budd cyhoeddus
- cydymffurfio â dogfen lywodraethol eich elusen a'r gyfraith
- gweithredu er lles gorau eich elusen
- sicrhau bod eich elusen yn atebol
- rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol
- gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol

Rydym am i bob ymddiriedolwr ddarllen a gwneud defnydd o'r canllaw hwn er mwyn i'r safonau llywodraethu wella ac osgoi camgymeriadau sylfaenol. Gan weithio gyda chyrff sector elusennol fel NCVO, Cymdeithas Genedlaethol y Llywodraethwyr, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cymdeithas y Cadeiryddion, rydym wedi gwneud cynnydd cynnar da. Roedd cyfreithwyr elusennol a'r Directory of Social Change wedi diweddaru eu hyfforddiant i ymddiriedolwyr i adlewyrchu hyn. Roeddem wedi dyblu nifer y darllenwyr bron i 39,000 yn y chwe mis o Hydref - Mawrth (2014-15: 22,000). Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r canllaw yn 2016-17.

> *"Mae'r canllaw newydd yn gliriach ac yn fwy cryno na'i ragflaenydd, gyda phatrwm sy'n haws ei ddilyn. Mae'r gwelliannau a'r eglurder ychwanegol hyn yn ganlyniad i broses ymgynghori drylwyr y Comisiwn Elusennau, gan ystyried adborth gan y bwrdd a rhoi sylw i'n pryderon."*
>
> **Karl Wilding, NCVO**

**Canllawiau ariannol**

Roedd rheolaeth ariannol da, yn enwedig yn wyneb methiannau elusennau eleni, yn thema ar gyfer y flwyddyn. Ailystyriwyd tri darn allweddol o ganllawiau ariannol a llywodraethu i'w gwneud hi'n gliriach i'r ymddiriedolwyr beth y mae'n rhaid iddynt wybod:

1. Mae 'Llywodraethu, cyllid a gwydnwch elusennau: 15 cwestiwn y dylai ymddiriedolwyr eu gofyn' yn rhestr wirio o bethau allweddol y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ofyn i'w hunain. Mae'r rhain yn cynnwys: ydych chi'n gwneud beth mae'ch elusen wedi'i sefydlu i'w wneud, ydy'ch cyllid yn ddiogel, oes systemau da gennych yn eu lle ac a oes gennych chi ddigon o arian i gynnal yr elusen?

2. Mae 'Cronfeydd wrth gefn elusennau: adeiladu gwydnwch' yn cynghori elusennau y dylai fod polisi cronfeydd wrth gefn gan bob elusen ac y dylid cofnodi hynny. Ni fydd cael cronfeydd wrth gefn y peth iawn i bob elusen, ac nid oes unrhyw un lefel sy'n iawn i bob elusen, ond mae'n rhaid i ymddiriedolwyr allu esbonio pam y maent wedi gwneud eu penderfyniad ar y cronfeydd wrth gefn y mae eu hangen arnynt.

3. Mae 'Rheoli cyllid elusen' yn argymell bod ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa ariannol eu helusen a'i pherfformiad yn erbyn cyllidebau a rhagolygon ar gyfer y dyfodol o leiaf unwaith y mis. Gall helpu elusennau i nodi problemau ariannol ac, os oes angen, cynllunio ar gyfer proses drefnus o ddod â'r elusen i ben.

### Canllaw newydd ar chwythu'r chwiban

Ailwampiwyd ein canllaw ar gyfer gweithwyr elusennol ar sut y gallant godi pryderon â ni o dan Ddeddf Datgelu Budd Cyhoeddus 1998. Mae wedi'i gysylltu â chyfeiriad e-bost chwythu'r chwiban penodol ac mae'n esbonio sut mae'r Ddeddf yn hwyluso llinellau adrodd (un ohonynt i'r Comisiwn fel y person rhagnodedig o dan y Ddeddf), a sut y mae'n darparu rhywfaint o ddiogelwch i weithwyr sydd wedi cael eu trin yn niweidiol o ganlyniad i wneud datgeliad chwythu'r chwiban. Gwelwn chwythu'r chwiban fel ffordd werthfawr o ganfod camddefnydd difrifol mewn elusennau nad ydynt yn rhoi sylw digonol i bryderon eu hunain.

### Chwythu'r chwiban i'r Comisiwn

Cafodd 143 o ymholiadau chwythu'r chwiban sylw eleni (2014-15: 114). Daeth tuag un rhan o dair o achosion trwy'r archwilwyr ariannol: 16 (2014-15: 18), a'r archwilwyr annibynnol: 40 (2014-15: 46). Daeth y rhan fwyaf ohonynt (87) o weithwyr: (2014-15: 50). O ganlyniad cychwynnwyd 85 o achosion, ac o'r rhain mae 16 yn dal yn weithredol, roedd un wedi arwain at ymchwiliad statudol, a thri mewn Cynlluniau Gweithredu.

### Canllawiau refferendwm yr UE

Ym Mawrth 2015, yn dilyn galwadau am ganllawiau penodol ar refferendwm yr UE, cyhoeddwyd canllaw rheoleiddio i elusennau gan ystyried cyfranogiad cyhoeddus yn y ddadl. Codwyd rhai pryderon am agweddau ar y canllaw. Gwrandawyd ar yr adborth a gwnaethpwyd rhai newidiadau yn gyflym i'r geiriad i roi mwy o eglurder.

## Elusennau yn ariannu sefydliadau anelusennol:

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd a chyhoeddwyd canllaw drafft ar gyfer ymddiriedolwyr elusennau sydd am roi grantiau i sefydliadau anelusennol. Daeth yr ymgynghoriad i ben yn Ebrill 2016 a disgwylir cyhoeddi'r canllaw ar y mater hwn cyn diwedd 2016 yn dilyn trafodaeth bellach gydag elusennau. Cynhyrchwyd y canllaw drafft yn dilyn ein hymgysylltu rheoleiddio â dwy elusen oedd wedi ariannu Cage, cwmni anelusennol.

Gallwch ddarllen ein hadroddiadau achos ar The Joseph Rowntree Charitable Trust (JRCT) a The Roddick Foundation ar GOV.UK i gael manylion am ein casgliadau. Mae adroddiad JRCT hefyd yn cynnwys crynodeb o adolygiad barnwrol Cage yn herio ein gwaith rheoleiddio, a ddaeth i ben gyda'r Llys yn gwrthod dau o'i seiliau hawlio a Cage yn tynnu'n ôl y gweddill ar y sail bod y partïon yn cytuno ar ddatganiad yn egluro'r sefyllfa gyfreithiol.

## Rhoi caniatâd i elusennau helpu i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o'u hadnoddau

Cychwynnwyd 1,582 o achosion caniatâd (2014-15: 1169) a daeth 1,617 (2014-15: 1,425) i ben, gan ddiogelu incwm gwerth £17.1 biliwn. Rydym wedi symleiddio rhai o'r prosesau ar gyfer ceisio caniatâd er mwyn i ni wneud mwy o ddefnydd o dempledi. Bydd hyn yn  cyflymu achosion.

Gwnaethpwyd dwywaith cymaint o ddefnydd o'n pwerau galluogi â'n pwerau cydymffurfio yn ein tîm gweithrediadau eleni (489 o weithiau).

Gall ein penderfyniadau i roi caniatâd i elusennau fod yn ddadleuol, a gall elusennau wynebu gwrthwynebiadau gan y rhai sy'n gwrthwynebu eu cynlluniau. Gall y rhan fwyaf o'n penderfyniadau caniatâd gael eu herio yn y Tribiwnlys, ac eleni wynebwyd tair apêl yn erbyn ein penderfyniadau i roi caniatâd i elusennau. Amddiffynnwyd pob un o'r apeliadau hyn yn llwyddiannus.

**Astudiaethau achos: Rhoi'r pŵer i ymddiriedolwyr elusen weithredu ar eu rhwymedigaethau moesol**

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Gwnaethpwyd penderfyniad yng Ngorffennaf 2015 yn galluogi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i negodi telerau cytundeb â'i thenantiaid i ildio hawl i ganran o'r rhentir modern.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Os yw ymddiriedolwyr yn credu bod rhwymedigaeth foesol arnynt i weithredu, ond nid oes ganddynt y pŵer i wneud hynny, gallwn awdurdodi'r weithred honno.

**Y camau a gymerwyd:** Cytunwyd mewn egwyddor yng Ngorffennaf 2015 y gallai cyfreithio ar ex gratia (hynny yw gweithredu ar rwymedigaethau moesol) fod yn gymwys. Roedd yn anarferol i ddefnyddio'r darpariaethau cyfreithiol gan alluogi cymryd camau a fyddai'n golygu bod modd gwneud Gorchymyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Effaith ein hymyrraeth:** Roedd y Comisiwn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i drin tenantiaid eu heiddo mewn ffordd deg a moesol. Pe na fyddwn wedi gwneud hynny gallai nifer o denantiaid mewn tua 300 o eiddo fod wedi ei chael hi'n anodd i dalu'r yn y rhent.

**Cynghori elusen ar ei phŵer i arwyddo contractau i ddatblygu cyfleusterau newydd i'r cyhoedd**

**The Royal Collection Trust**

Mae'r Royal Collection Trust yn gyfrifol am gynnal a chadw a chadwraeth y Casgliad Brenhinol, a'i gyflwyniad i'r cyhoedd.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Roedd yr elusen am ddarparu stiwdio cadwraeth newydd ar gyfer gof arfau'r elusen a gwaith cadwraeth arall ar dir Windsor House Park a chanolfan addysg newydd i ddarparu cyfleusterau dysgu priodol a phenodedig o fewn Castell Windsor yn Pug Yard. Roedd yn bwriadu ariannu costau adeiladu'r stiwdio newydd yn gyfnewid am drwyddedau (ac nid prydlesi) i ddefnyddio'r lle yn wyneb natur unigryw eiddo'r Goron.

**Y camau a gymerwyd:** Ystyriwyd a oedd y cynigion er lles gorau'r elusen a cheisiwyd gwybodaeth bellach gan yr elusen i gadarnhau hyn. Daethom i'r casgliad y gallai'r elusen lunio cytundebau â Gweision y Frenhines i ddiogelu'r cyfleusterau newydd arfaethedig, er y byddai dim ond yn cael trwydded i feddiannu'r tir. Rhoddwyd cyngor ffurfiol i'r ymddiriedolwyr (o dan ddarpariaethau adran 110 o Ddeddf Elusennau 2011).

**Effaith ein hymyrraeth:** Drwy weithredu yn unol â'n cyngor, mae'r ymddiriedolwyr yn sicr eu bod wedi gweithredu'n briodol ac yn unol ag ymddiriedolaethau'r elusen.

**Newid dogfen lywodraethol elusennol i gadw i fyny â datblygiadau rheoleiddiol a marchnad**

**The Sir Thomas Lipton Charity**

Pan fu farw Syr Thomas Lipton (sylfaenydd brand te Lipton) yn 1931, gadwodd ei gartref yn Llundain i ymddiriedolaeth a daeth yn gartref i nyrsys sydd wedi ymddeol. Dros y blynyddoedd, penodwyd elusen genedlaethol 'The Friends of the Elderly' fel ymddiriedolwr a daeth yn gartref gofal i grŵp ehangach o bobl.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Dros y blynyddoedd diwethaf, teimlai'r ymddiriedolwyr nad oedd hi'n ymarferol i gadw'r cartref gofal ar agor mwyach, yn bennaf oherwydd y gofynion rheoleiddio ar gyfer cartrefi gofal cofrestredig a disgwyliadau'r farchnad. Cafodd ei gau yn Awst 2014. Fodd bynnag, o dan yr ymddiriedolaethau, roedd rhaid i'r eiddo gael ei ddefnyddio at ddibenion yr elusen ac ni allai'r ymddiriedolwr newid hyn.

**Y camau a gymerwyd:** Cytunwyd i ddefnyddio ein pwerau i newid yr ymddiriedolaethau trwy wneud 'cynllun' i roi pŵer i'r ymddiriedolwr waredu'r eiddo ar ôl ystyried sylwadau gan y cyhoedd.

**Effaith ein hymyrraeth:** Mae'r dibenion diwygiedig yn parhau i wneud hi'n ofynnol i'r elusen ddal tir. Mae hyn yn golygu os yw'r eiddo wedi cael ei waredu, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried prynu eiddo yn ei le. Os yw hyn yn ymarferol, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud cais i ni am gymorth pellach.

Rydym wedi gweithio gyda chyllidwyr elusennau, cynghorwyr proffesiynol, cyrff mantell ac adrannau eraill o'r llywodraeth a rheoleiddiwr yn ystod y flwyddyn i helpu i wella effeithiolrwydd ymddiriedolwyr. Mae ein gwaith yn cynnwys Canolfan Cass ar gyfer Effeithiolrwydd Elusennau ac ymgyrch ymwybyddiaeth o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Cranfield, datblygu rheoleiddiwr newydd ar gyfer codi arian ar gyfer elusennau, a chyngor ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar elusennau, gan gynnwys materion fel hawl tenantiaid i brynu stoc tai elusennol a newidiadau i academïau ac ysgolion rhydd. Rydym wedi gweithio gyda'r Sefydliad Cyfarwyddwyr i greu rhaglen datblygu ymddiriedolwyr sy'n cael ei lansio yn 2016. Fel aelod o Grŵp Llywodraethu Da Cymru, hyrwyddwyd pwysigrwydd rheolaethau ariannol da.

**Wythnos yr Ymddiriedolwyr**

Rydym wedi cydweithio â sawl corff sector, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, rheoleiddiwr elusennau'r Alban OSCR, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) a chyrff proffesiynol ar y chweched dathliad o ymddiriedolwyr, Wythnos yr Ymddiriedolwyr, yn Nhachwedd 2015. Roedd hyn wedi helpu i hyrwyddo rôl yr ymddiriedolwr i gynulleidfa ehangach a'r thema oedd recriwtio doniau amrywiol. Eleni defnyddiwyd yr wythnos i hyrwyddo ein canllaw diwygiedig 'Yr ymddiriedolwr hanfodol' mewn person yng Nghynhadledd Ymddiriedolwyr NCVO, ac ar-lein. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y darllenwyr, i fyny gan 24%. Cryfhawyd ein perthynas â'r NUS hefyd.

**Safonau ansawdd**

Cydnabyddwn werth safonau ansawdd fel ffordd o hyrwyddo llywodraethu da mewn elusennau. Eleni, daeth ein rhaglen o gymeradwyo setiau unigol o safonau ansawdd i ben gan ei fod yn ymarfer dwys o ran adnoddau i ni ei gyflawni'n effeithiol. Credwn mai defnydd mwy effeithiol o'n hadnoddau yw hwyluso, hybu a chyfathrebu i ymddiriedolwyr waith ein cyn Bartneriaeth Cymeradwyo a chyrff sector eraill sydd erbyn hyn yn arwain ar y gwaith ar y cyd i ddatblygu safonau ansawdd ar draws y sector.

## Blaenoriaeth 3: Annog elusennau i fod yn fwy tryloyw ac atebol

Ni all elusennau byth gymryd cefnogaeth gyhoeddus yn ganiataol. Gwyddom fod tryloywder ac atebolrwydd yn hollbwysig i ffydd a hyder y cyhoedd. Mae ein cofrestr elusennau yn rhoi gwybodaeth gyfoes a chywir am elusennau sydd yn aml yn sail i benderfyniad cyllido.

## Bod yn gyflymach i ddileu o'r Gofrestr yr elusennau hynny sydd wedi dod i ben, sy'n ansolfent, neu rydym yn penderfynu nad ydynt mwyach, neu nid oeddent erioed, yn elusennau

Rydym wedi gweithio i fod yn gyflymach wrth ddileu sefydliadau nad ydynt yn elusennau er mwyn hyrwyddo ffydd yn yr elusennau sydd ar y Gofrestr ac mewn effeithiolrwydd rheoleiddio. Un ffordd rydym wedi gwneud hynny yw trwy adnabod a gwneud cysylltiad ag elusennau sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau adrodd. Mae hyn wedi arwain at adnabod yn gyflymach elusennau sydd wedi dod i ben a'u dileu o'r Gofrestr. Dilëwyd 4,442 o elusennau o'r Gofrestr (2014-15: 4,800).

**Diffyg gweithredu dwywaith**

Derbyniwyd 87% o gyfrifon ar y dyddiad cau (2014-15: 86%); ac roedd hyn yn cyfrif am 99% o incwm y sector (2014-15: 99%).

Ystyr diffyg gweithredu dwywaith yw elusennau sydd heb ffeilio adroddiadau a chyfrifon am ddwy flynedd yn olynol.

Mae ein hymchwiliad dosbarth i'r rhai sydd heb weithredu dwywaith yn parhau gyda 32 o elusennau yn rhan ohono yn ystod y flwyddyn. Gorfodwyd pob un o'r elusennau oedd yn rhan o'r ymchwiliad i unioni'r diffyg gweithredu i ffeilio'r wybodaeth oedd ei hangen, gyda chyfarwyddyd ffurfiol i 18 o'r elusennau hynny wneud hynny o dan adran 84 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae un deg wyth o elusennau eisoes wedi gwneud hynny, a disgwylir i 14 ohonynt ymateb yn y dyfodol agos. Yn ogystal â'r rhain, mae 13 o elusennau o'r ymchwiliad dosbarth yn 2014-15, hefyd wedi unioni'r diffyg, gan ddod â'r cyfanswm elusennau sy'n cydymffurfio i 27 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. O ganlyniad, mae gwerth £15.5 miliwn o gronfeydd elusennol i'w gweld yn gyhoeddus erbyn hyn ar ein Cofrestr.

**Newidiadau i'r Ffurflen Flynyddol yn 2016**

Bydd y Ffurflen Flynyddol yn wahanol yn 2016-17. Er enghraifft, mae wedi cael ei symleiddio er mwyn ei gwneud hi'n hawdd iawn ac yn gyflym i oddeutu 70,000 o'r elusennau lleiaf ei chwblhau. Mae'r adran ariannol wedi newid i adlewyrchu newidiadau i arferion cyfrifyddu ar gyfer elusennau ac mae ein canllawiau wedi cael eu symleiddio. Rydym hefyd wedi cynnwys adborth gan gwsmeriaid i ddatblygu'r meysydd a'r canllaw i'w wneud yn fwy ystyriol o'r defnyddiwr. Rydym yn gwahodd adborth pellach ar y Ffurflen Flynyddol newydd trwy GOV.UK.

Bydd rhaid i bob elusen ddiweddaru manylion eu helusen (ymddiriedolwyr, cyfeiriadau, e-byst ac ati) trwy wasanaeth hawdd ei ddefnyddio ar wahân cyn cwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a bydd rhaid iddynt ddatgan eu bod wedi gwneud hynny hefyd.

Yn 2015-16 derbyniwyd 87% o Ffurflenni Blynyddol ar y dyddiad cau (2014-15: 80%).

**Annog elusennau i ffeilio Ffurflenni Blynyddol a Chyfrifon gwell**

Roeddem wedi parhau i hyrwyddo cyfrifon ac adroddiadau blynyddol gwell ar gyfer elusennau trwy ein gwaith monitro cyfrifon.

Roedd ein cyfrifwyr wedi dadansoddi'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i lywio ein hachosion a nodi'r themâu allweddol o'r cyfrifon i godi safonau llywodraethu ariannol o fewn y sector. Gan ddefnyddio ein pwerau adran 52 (pwerau i'w gwneud hi'n ofynnol i elusennau gynhyrchu gwybodaeth neu ddogfennau) dadansoddwyd cyfriflenni banc 180 o elusennau i ganfod trafodion amheus. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw a'n hadolygiad o adroddiadau a chyfrifon, archwiliwyd 107 o lyfrau a chofnodion elusennau i ddal ymddiriedolwyr i gyfrif. Roedd y dystiolaeth yn allweddol i sefydlu achos ar gyfer gweithredu gan arwain at wyth datganiad tyst gan y tîm a rhoi tystiolaeth mewn un achos. Defnyddiwyd cyfrifon elusennau i nodi'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r sector mewn modd rhagweithiol ac roedd ein tîm o gyfrifwyr wedi craffu ar 986 set o gyfrifon.

O'n pedwar adroddiad ar ansawdd cyfrifon elusennau nodwyd bod angen i gyfrifon elusennau bach wella yn arbennig ond roedd yr elusennau bach hynny a ddewisodd ddefnyddio archwiliwr annibynnol neu oedd wedi defnyddio ein templedi adrodd a chyfrifon wedi cael canlyniadau gwell gyda hyd at 88% ohonynt yn cyrraedd y safon ansawdd sylfaenol. Adroddwyd ar wariant elusennol isel a chostau llywodraethu uchel gan dynnu sylw at y ffaith bod y sector yn dal i baratoi cyfrifon gyda gormod o ddiffygion ac esboniad annibynnol o'u perfformiad. Mae ein casgliadau i'w gweld ar GOV.UK.

Gwelwyd hefyd bod ansawdd cyfrifon yn gwella gyda maint yr elusen gyda gwelliant parhaus gan yr elusennau hynny y mae'n ofynnol iddynt ffeilio gwybodaeth â ni. Mae llawer ohonynt yn dal i fethu ag adrodd eu stori yn dda. Nid yw digon o elusennau yn adrodd ar ba mor dda y maent yn gwasanaethu eu buddiolwyr. Mae nifer o'n hachosion ymchwiliad yn cynnwys budd preifat, ond o'r elusennau hynny sy'n adrodd o dan Ddatganiadau o arferion cymeradwy (SORP), sy'n esbonio sut y dylai elusennau adrodd), gwelwyd mai dim ond 74% ohonynt oedd wedi cynnwys nodyn ar dâl ymddiriedolwyr, fel sy'n ofynnol gan y SORP. Mae hwn yn faes y mae'r SORP newydd yn rhoi sylw iddo trwy nodi'n gliriach beth y mae'n rhaid ei ddatgelu.

- mae 42% o adroddiadau blynyddol elusennau yn dangos dealltwriaeth glir o fudd cyhoeddus, (2014-15: 35%)
- roedd 77% o gyfrifon elusennau o ansawdd derbyniol (2014-15: 68%)

Gwnaethpwyd gwaith dilynol gyda phob un o'r elusennau y nodwyd bod diffygion ganddynt yn ein hadolygiad, gan roi cyngor ac arweiniad neu ofyn iddynt ailgyflwyno manylion.

**Newidiadau i Gyfrifyddu ar gyfer Elusennau yn 2015-16**

Mae cyfrifyddu yn y DU, a elwir yn gyffredin yn Arferion Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol (UK GAAP), wedi bod trwy gyfnod o newid mawr. Daeth dau SORP newydd i rym ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau 1 Ionawr 2015 i gefnogi'r dewisiadau cyfrifyddu sydd ar gael i elusennau o dan UK GAAP. Roedd newidiadau pellach i UK GAAP o 2016 wedi symleiddio'r fframwaith cyfrifyddu gan gynnig modd i ni ymgynghori ar newidiadau i UK Charities SORP yn 2015.

Ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016 bydd un SORP yn unig, Charities SORP (FRS 102). Er mwyn osgoi rhoi baich ar y sector wrth ailgyhoeddi'r SORP hwn, gyda chymeradwyaeth y Cyngor Adrodd Ariannol, cyhoeddom ni a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban Fwletin Diweddariad yn Chwefror 2015 i sicrhau bod fframwaith adrodd a chyfrifyddu elusennol yn parhau i gyd-fynd â newidiadau yn UK GAAP.

I godi safonau, gan weithio gyda'r corff proffesiynol cyfrifyddu ACCA, cynhyrchiwyd canllaw ar gyfer cwmnïau rhyngwladol nad ydynt yn gwneud elw ar gymhwyso'r safon adrodd ariannol ryngwladol ar gyfer Endidau Bach a Chanolig. Wedi'i gyhoeddi yn Hydref 2015, mae'r canllaw yn hyrwyddo arferion adrodd UK SORP yn rhyngwladol, gan felly helpu i godi safonau adroddiadau ariannol gan bartneriaid rhyngwladol sy'n gweithio gydag elusennau'r DU.

Fel cam cyntaf tuag at ffeilio cyfrifon digidol, ac yn dilyn ein hymgynghoriad ar y cyd â'r Cyngor Adrodd Ariannol, cyhoeddwyd estyniad tacsonomeg elusennau ar y cyd yn Chwefror 2016 er mwyn gallu ffeilio 'cyfrifon wedi'u tagio' yn electronig. Gan ddefnyddio technoleg i 'dagio' eitemau allweddol yn y cyfrifon, gallwn agor cyfrifon a'i gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gymharu data am elusennau ac i ni nodi patrymau. Tacsonomeg yw'r cam cyntaf hanfodol tuag at alluogi ffeilio 'cyfrifon wedi'u tagio' i elusennau a gweld diwedd i'r rhaniad digidol posibl yn y dewisiadau ffeilio sydd ar gael i gwmnïau elusennol o'i gymharu â ffurfiau eraill o gwmnïau cofrestredig. Gan adeiladu ar hyn, rydym yn ystyried cyfleoedd i weithio ar y cyd â Thŷ'r Cwmnïau i alluogi cwmnïau elusennol i ffeilio cyfrifon wedi'u tagio.

## Blaenoriaeth 4: Gweithredu fel rheoleiddiwr arbenigol ac effeithlon gyda chyllid cynaliadwy

Mae elusennau sy'n cael eu rhedeg yn dda yn haeddu cael rheoleiddiwr effeithlon a chadarn sy'n cael ei gydnabod am ei arbenigedd a'i farn, ac sydd wedi'i gynnal gan fodel cyllido cynaliadwy. Bydd ein Rhaglen Drawsnewid yn ein helpu i gyflawni'r flaenoriaeth strategol hon.

## Buddsoddi'r cyllid ychwanegol a roddwyd i ni gan y Trysorlys o 2014: y Rhaglen Drawsnewid

Rydym yn ail flwyddyn rhaglen tair blynedd £8 miliwn wedi'i hariannu gan y Trysorlys i ailgynllunio ein model gweithredu a phrosesau busnes i leihau cymhlethdod a chael mwy o effeithlonrwydd. Mae pum rhan allweddol i'r rhaglen fuddsoddi.

**Rheoleiddio dan arweiniad risg**

Fel y trafodwyd uchod, diweddarwyd ein Fframwaith risg eleni. Dechreuwyd gwella ansawdd ein data ac mae technoleg bwrpasol yn cynnig modd i ni ddefnyddio'r data hwnnw yn well i asesu risg rheoleiddio mewn achosion unigol a'r sector elusennol.

**Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol**

Rydym yn datblygu prosesau busnes o ben i ben a rheolau ar gyfer gwaith achos, archdeipiau (achosion nodweddiadol), a system gwaith achos sengl gyda llif gwaith wedi'i awtomeiddio. Bydd hyn yn arwain at reoleiddio mwy cyson, proses well a rhoi caniatâd a chydsyniad yn gyflymach. Derbyniwyd 102,147 o

negeseuon e-bost, galwadau a llythyrau y llynedd (2014-15: 120,157) ac ymatebwyd i 90% o ymholiadau cwsmeriaid o fewn 15 diwrnod gwaith (2014-15: 72%).

**Mantais ddigidol**

Rydym am i elusennau allu cael mynediad i gymwysiadau hunanwasanaeth yn rhwydd. Eleni lansiwyd ein strategaeth ddigidol a ffurflen flynyddol ar-lein a gwasanaeth cofrestru ar-lein newydd. Mae'r canlyniadau cynnar yn addawol iawn. Disgwylir gweld manteision o ran cyflymu profiad y defnyddiwr a gwella cywirdeb ein data. Bydd yr amser ychwanegol a gawn yn cynnig modd i ni ganolbwyntio mwy ar waith achos â blaenoriaeth uchel.

**Diwylliant y comisiwn**

Rydym yn aildrefnu timau ac yn alinio sgiliau i helpu ein gweithle i fodloni gofynion newidiol a'n helpu i wneud mwy gyda llai. Eleni lansiwyd cynllun y gweithle, arolwg sgiliau, rhaglen datblygu arweinyddiaeth a rhaglen hyfforddi staff.

**Cyllid cynaliadwy**

Gan fod ein gwariant cyfredol wedi'i rewi (yn yr adolygiad gwariant, Tachwedd 2015) rydym yn gweithio ar fodel cost yr uned, a model cyllido ac achos busnes ar gyfer cyllido cynaliadwy. Dylai hyn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell am adnoddau cyfredol.

Bydd parhau i ddarparu dulliau rheoleiddio elusennau effeithiol yn ein cyllideb gyfredol yn her fawr. Fel rheoleiddiwr cyfrifol, mae'n rhaid i ni ystyried ffyrdd o sicrhau bod yr arian sydd ei angen gennym, nawr ac yn y dyfodol, i reoleiddio elusennau mewn ffordd sy'n golygu y gall y cyhoedd gael ffydd a hyder ynddynt.

Yn ein Cynllun Strategol 2015-18, dywedwyd y byddem yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer dewisiadau cyllido, gan gynnwys tâl blynyddol ar gyfer elusennau. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio ffyrdd o gael cyllid cyson ar gyfer rheoleiddio elusennau.

Byddwn yn lansio ymgynghoriad ar ein cyllid yn ddiweddarach eleni.

## Gweithredu fel rheoleiddiwr effeithlon ac arbenigol

Roeddem wedi parhau i weithio'n galed i wella effeithlonrwydd ein dulliau rheoleiddio a lleihau costau.

Rydym wedi symleiddio ac ailstrwythuro ein tîm gwaith achos ac wedi canolbwyntio ar symleiddio prosesau gan gynnwys y broses asesu ar gyfer cychwyn ymchwiliad. Y nod oedd ei gwneud hi'n llai biwrocratig i sicrhau bod yr achosion y mae angen ymchwilio iddynt yn cael eu hymchwilio mor gyflym â phosibl a bod achosion cydymffurfio yn cael eu datrys mor gyflym a chyson ag y bo modd.

Symudwyd swyddfeydd yn Taunton, gan wneud arbedion sylweddol o tua £650,000 y flwyddyn trwy symud i eiddo llai o faint a mwy o staff yn gweithio o gartref.

**Yr Ombwdsmon Seneddol**

Cwynion am y Comisiwn i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Mae nifer y cwmnïau sy'n cyrraedd ail gam proses gwyno fewnol y Comisiwn (adolygiadau Cam 2) wedi mynd i lawr o 55 i 30 y flwyddyn hon. Mae'r adolygiadau hyn yn ystyried safon y gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn. Rydym yn delio â thri phrif fath o gwynion fel adolygiadau Cam 2 - ymyrraeth reoleiddio annigonol, camgymeriadau/cyngor aneglur neu anghywir ac oedi/prydlondeb.

O'r 30 o gwynion hyn, cafodd pedair eu cynnal (dwbl y nifer y llynedd) ac 11 eu cynnal yn rhannol (12 y llynedd).

Derbyniodd yr Ombwdsmon saith cwyn i'w hymchwilio eleni (derbyniwyd dwy arall ac maent wrthi'n cael eu hasesu), ac adroddwyd ar bump. O'r rhain, ni chafodd yr un ohonynt eu cynnal yn llawn, cafodd un ei chynnal yn rhannol, ac ni chafodd pedair eu cynnal. Mae'r cynnydd hwn mewn cwynion a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon yn adlewyrchu ei strategaeth i gynyddu nifer yr ymchwiliadau y mae'n ymgymryd â nhw.

Gwnaeth yr Ombwdsmon wyth argymhelliad a chydymffurfiwyd â phob un o'r rhain.

Ar achlysuron prin iawn, mae ein gweinyddiaeth yn cwympo'n is na'r safonau derbyniol ac mae angen ateb ariannol i unioni pethau. Digwyddodd hyn ddwywaith yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gyfanswm o £19,980 o daliadau (nid oedd unrhyw daliadau yn ofynnol yn ystod 2014-15).

Mewn un achos gwnaethpwyd taliad i gydnabod penderfyniadau aneglur a chroes, oedi a lefelau gwasanaeth gwael. Roedd hyn wedi cael sylw sawl blwyddyn yn ôl, ond arweiniodd at anfodlonrwydd am gyfnod hir a gafodd ei ddatrys eleni.

Mewn ail achos rhoddwyd iawndal am oedi diangen yn ein proses weinyddol oedd wedi creu anghyfleuster i'r achwynydd.

### Rhyddid Gwybodaeth

Derbyniwyd 642 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (2014-15: 560).

## Cyflawnwyd 17 o 19 Dangosydd Perfformiad Allweddol ac o'r rhain, un o'r ddau Ddangosydd Perfformiad Allanol a fesurwyd eleni

Eleni mesurwyd 17 Dangosydd Perfformiad Allweddol a dau Ddangosydd Perfformiad Allanol a chyrhaeddwyd targedau ar gyfer 17 o gyfanswm o 19. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnwys amrywiaeth o fesurau sy'n olrhain nifer yr achosion rydym yn delio â nhw, yr amser a gymerir i ddatrys achosion, ac ansawdd ac effaith fuddiol ein gwaith. Maent hefyd yn mesur nifer y cyfrifon a ffurflenni blynyddol sy'n cael eu ffeilio mewn pryd a'u hansawdd.

Rydym wedi gosod Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd ar gyfer 2016-17, gan alinio'r rhain â'n blaenoriaethau strategol.

### Dangosyddion Perfformiad Allanol

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allanol cyntaf yn olrhain ansawdd ein gwaith (wedi'i fesur gan ganran ein hadolygiadau gwaith achos y bernir eu bod yn dderbyniol neu'n well), lle roeddem wedi rhagori ar y targed o 90% gyda ffigur o 94% (95% y llynedd). Mae'n galonogol bod ein gwaith achos yn parhau i gwrdd â safonau uchel, yn well na'n targed, gyda dim newid sylweddol ers y llynedd. Mae ein gwaith achos yn cael ei fesur ar draws 10 sector o'r busnes, gyda 824 o adolygiadau ansawdd y llynedd yn olrhain mesurau gwahanol ym mhob maes unigryw o'r busnes. Er enghraifft, gallai'r gwaith achos galwadau ffôn Cyswllt Cyntaf (gwasanaeth cwsmeriaid) fethu adolygiad os nad oedd ein gweithiwr wedi defnyddio'r sgript safonol i ddechrau'r galwad.

Mae'r ail Ddangosydd Perfformiad Allanol yn olrhain lefel gyffredinol ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau. Fe'i mesurir gan arolwg o ffydd a hyder cyhoeddus a gynhelir bob dwy flynedd. Felly mae'n ddangosydd y gallwn ddylanwadu arno ond nid ei reoli'n uniongyrchol. Y lefel meincnod ar gyfer ffydd a hyder oedd 6.7. Y ffigur go iawn eleni oedd 5.7, 1 pwynt i lawr ar o'r tro diwethaf y cafodd ei fesur (lle mae 0 yw dim hyder a 10 hyder llawn).[1]

Mae'n siomedig bod hyder cyhoeddus mewn elusennau wedi lleihau, yn bennaf, fe gredwn, o ganlyniad i'r problemau proffil uchel a wynebodd y sector dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, yn wyneb rhai o'r penawdau a'r ymateb i'r materion hyn, mae rhesymau dros gredu y gallai lefel gyffredinol y ffydd a hyder fod wedi cael ei heffeithio'n fwy difrifol.

---

[1] *Public trust and confidence in charities 2016*, ymchwil gan Populus ar ran y Comisiwn Elusennau.

## Gwnaethom gynnydd ar argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Rydym yn parhau i olrhain ein cynnydd yn erbyn argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a wnaed yn adroddiad 2013, 'Effeithiolrwydd rheoleiddio'r Comisiwn Elusennau.'

Yn 2015-16 bodlonwyd argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i amlinellu strategaeth a chynllun clir ar gyfer trawsffurfio ein hunain fel rheoleiddiwr trwy weithredu ein Cynllun Strategol 2015-18 a'n Rhaglen Drawsnewid. Ochr yn ochr â'r gwaith a ddisgrifir yn erbyn ein blaenoriaethau strategol uchod, rydym wedi bod yn gweithio ar gynlluniau Adnoddau Dynol a newid diwylliant i sicrhau bod y bobl iawn yn eu lle i fodloni blaenoriaethau busnes.

Gwnaethpwyd cynnydd da ar y rhan fwyaf o'r argymhellion yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys yn fwyaf arbennig cwblhau'r adolygiad o'n fframwaith llywodraethu ac asesiad o effeithiolrwydd y bwrdd; cwblhau'n derfynol a gweithredu ein strategaeth i geisio darbwyllo mwy o awdurdodau cyhoeddus i rannu data; datblygu strategaeth fonitro ragweithiol; a chyhoeddi data achos cydraddoldeb bob chwarter. Rydym yn cwrdd â Chyllid a Thollau EM yn rheolaidd i drafod rhannu data ac wedi defnyddio data cymorth rhodd a hafan dreth i gynhyrchu gwaith monitro rhagweithiol.

Rydym yn gwneud cynnydd yn ôl y disgwyl ar wella ein mesuriad cost yr uned a gwneud defnydd gwell o'n data. Mae ein data adrodd misol ac wythnosol yn ei le ac mae tueddiadau yn gwella ar y cyfan.

Rydym wedi gwrthdroi'r duedd a nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol lle rydym yn cymryd yn hwy i gofrestru elusennau. Er gwaetha'r ffaith bod ceisiadau cofrestru i fyny 14% yn 2015-16, cyflymwyd y broses gofrestru gydag amserlenni cofrestru cyfartalog i lawr i 58 diwrnod am y flwyddyn ariannol lawn. Mae ein system gofrestru ar-lein newydd yn fyw erbyn hyn ac yn rhoi cyfle i ymgeiswyr gofrestru'n gyflymach oherwydd mae'n sicrhau ein bod yn cael yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom i wneud penderfyniad.

# 4 Atodiad cyfreithiol

## Amddiffyn ein penderfyniadau yn y Tribiwnlysoedd a'r Llysoedd

Gall ystod eang o benderfyniadau, cyfarwyddiadau a gorchmynion y Comisiwn gael eu herio yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen). Rhestrir y rhain yn Atodlen 6 o Ddeddf Elusennau 2011 (y 'Ddeddf'), ochr yn ochr â'r rhestr o elusennau ac eraill a allai herio ein penderfyniadau.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae nifer fach o heriau o'r fath yn parhau, o'i gymharu â nifer sylweddol o bwerau cyfreithiol sy'n cael eu harfer gan y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi parhau i amddiffyn ymgyfreithiad gyda chyfradd llwyddiant uchel iawn hefyd.

## Gwaith rhagweithiol yn yr Uchel Lys

Yn dilyn ei ddefnydd cyntaf y flwyddyn flaenorol, yn 2015-16 gwnaeth y Comisiwn ei ail gais ar gyfer cyfarwyddiadau gan yr Uchel Lys o dan adran 78(5)(b) o'r Ddeddf.

Gofynnodd y Comisiwn i'r Uchel Lys am gyfarwyddiadau yn awdurdodi'r rheolwyr dros dro (roedd y Comisiwn wedi eu hapwyntio i The Cup Trust) i dynnu'n ôl apeliadau Cymorth Rhodd yr elusen. Roedd hyn ar y sail bod yr apeliadau yn annhebygol iawn o lwyddo ac nid oes gan yr elusen ffynhonnell ddibynadwy o gronfeydd i ddilyn yr apeliadau a thalu unrhyw orchymyn costau gwrthdro. Yn dilyn gwrandawiad yn Ionawr 2016, penderfynodd yr Uchel Lys o blaid y Comisiwn ac awdurdodi'r rheolwyr dros dro i dynnu'n ôl yr apeliadau cymorth rhodd. Gweler 'Achosion o bwys' pellach.

## Tueddiadau a datblygiadau

- **Egluro awdurdodaeth y Tribiwnlys:**
  Ym Mawrth 2016, gwaeth y Llys Apêl benderfyniad pwysig ynghylch awdurdodaeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf i glywed adolygiadau o benderfyniadau ymchwiliad ac apeliadau o orchmynion cynhyrchu o dan adran 52 o'r Ddeddf, yn *R (Watch Tower Bible & Tract Society of Britain) v Comisiwn Elusennau* [2016] EWCA Civ 154. Gweler 'Achosion o bwys'.

- **Penderfynu achosion yn gynharach:**
  Roedd y Comisiwn wedi parhau i bwyso i achosion tribiwnlys gael ei gwblhau'n gyflym, ac wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gydag Apelyddion i'w hannog i dynnu eu hapeliadau yn ôl mewn achosion priodol. O'r 15 achos a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn, cafodd 10 eu penderfynu o blaid y Comisiwn heb wrandawiad llawn. Cafodd tri achos eu taflu allan neu ni chawsant eu derbyn gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf a chafodd saith achos eu tynnu'n ôl gan yr Apelyddion.

- **Terfynau amser ar gyfer achosion Tribiwnlys Haen Gyntaf:**
  O dan reolau gweithdrefnol y Tribiwnlys Haen Gyntaf, mae gan Apelyddion 42 diwrnod i ddwyn eu hachos trwy anfon Hysbysiad o Apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Yn ystod 2015-16, cafodd pedwar achos eu dwyn ar ôl y dyddiad cau hwn; cawsant eu hasesu gan y Comisiwn a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf fesul achos, gan gymhwyso'r prawf cyfreithiol a sefydlwyd gan achos *Data Select* (barn). Mewn un achos, penderfynodd y Comisiwn gytuno i ymestyn yr amser oherwydd amgylchiadau arbennig yr achos (*Steadfast Trust*). Mewn tri achos arall, gwrthwynebodd y Comisiwn ymestyn yr amser. Cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf â'r Comisiwn mewn dau achos, gan roi dyfarniadau rhesymedig yn gwrthod yr apeliadau. Gweler, (*Ryan*) a (*Muhoro*). Mewn un achos, anghytunodd yr Tribiwnlys Haen Gyntaf â'r Comisiwn a phenderfynodd fod yr apêl wedi'i ffeilio mewn pryd (*Hunt*). Gwnaeth y Comisiwn apêl aflwyddiannus yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Uwch Dribiwnlys a dderbyniodd dadleuon y Comisiwn a chymhwyso ymagwedd synhwyrol at y terfynau amser ar gyfer herio penderfyniadau'r Comisiwn yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

- **Hawliau apelio trydydd parti:**
  O'r 22 achos Tribiwnlys Haen Gyntaf a gafwyd yn ystod y flwyddyn, cafodd y rhan fwyaf o'r achosion eu dwyn gan elusen (wyth achos) a/neu ei hymddiriedolwyr elusen (11 achos). Cafodd pum achos eu dwyn gan Apelyddion eraill a ddadleuai eu bod yn 'bersonau a effeithir' gan

weithrediadau'r Comisiwn. Gwrthododd y Tribiwnlys Haen Gyntaf dderbyn y dadleuon hyn mewn rhai achosion.
Yn ystod y flwyddyn, clywodd yr Uwch Dribiwnlys apêl bwysig ar y mater *(Nicholson v Comisiwn Elusennau).* Yn ei ddyfarniad, am y tro cyntaf roedd yr Uwch Dribiwnlys wedi rhoi ei barn ar y prawf 'person a effeithir' ar gyfer mynediad i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, gan gynnal safle'r Comisiwn. Gweler 'Achosion o bwys' pellach.

- **Gorchmynion costau:**
  Yn ystod y flwyddyn mae'r Comisiwn wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio gorchmynion costau yn erbyn Apelyddion lle roedd hi'n briodol ac yn gymesur i'r Comisiwn adennill ei chostau fel hyn. Er enghraifft, cafodd y Comisiwn orchymyn costau mewn achos Uchel Lys lle y gwrthododd yn llwyddiannus gais i ddatgelu dogfennau am elusen. Roedd y Comisiwn hefyd wedi gwneud cais am orchymyn costau mewn un achos yn yr Uchel Lys ar ôl i'r Uchel Lys wrthod rhoi caniatâd i'r Apelydd i apelio, ond ni roddwyd y gorchymyn hwn. Bydd y Comisiwn yn parhau i wneud cais am orchmynion cost mewn achosion priodol.

## Achosion o bwys

**Achosion yn y Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r Uwch Dribiwnlys**

**Y Llys Apêl - Watch Tower Bible and Tract Society**

Gwnaeth yr elusen hon a'i hymddiriedolwyr gais am ganiatâd i ddwyn achos adolygiad barwnol yn y Llys Gweinyddol, gan herio penderfyniad y Comisiwn i gychwyn ymchwiliad i'r elusen a gwneud gorchmynion yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparu dogfennau a gwybodaeth.

Yn y dyfarniad ar 12 Rhagfyr 2014, gwrthododd y Llys Gweinyddol (Dove J) ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol ar y sail bod yr elusen wedi methu â cheisio ateb arall: dylai fod wedi dwyn ei hachos yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, sydd â'r awdurdodaeth i glywed apeliadau o orchmynion cynhyrchu ac adolygiadau o benderfyniadau ymchwiliad o dan adrannau 320 a 321 o'r Ddeddf. Gweler: R (on the application of Watch Tower Bible & Tract Society Of Britain) v Comisiwn Elusennau [2014] EWHC 4135 (Gweinyddol).

Apeliodd yr elusen yn erbyn dyfarniad y Llys Gweinyddol i'r Llys Apêl, a roddodd ganiatâd i apelio ym Mawrth 2015 a chlywyd yr achos yn Chwefror 2016. Rhoddwyd dyfarniad y Llys Apêl ar 15 Mawrth 2016: *R (on the application of Watch Tower Bible & Tract Society Of Britain) v Charity Commission* [2016] EWCA Civ 154, [2016] All ER (D) 129 (Mar).

Mewn dyfarniad pwysig, rhoddodd y Llys Apêl ei barn ar gwmpas awdurdodaeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adrannau 320 a 321 o'r Ddeddf i glywed apeliadau yn erbyn gorchmynion cynhyrchu'r Comisiwn o dan adran 52 o'r Ddeddf ac adolygu ei benderfyniadau i gychwyn ymchwiliadau o dan adran 46 o'r Ddeddf, yn ogystal â rôl y Llys Gweinyddol o ran clywed achosion o'r fath lle nad yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gwneud hynny.

**Penderfyniadau ymchwiliad**

Derbyniodd y Llys Apêl ddadl y Comisiwn nad y Tribiwnlys Haen Gyntaf oedd y lle cywir i glywed her Watch Tower i'r ymchwiliad a gychwynnwyd gan y Comisiwn. Roedd yr elusen wedi dadlau bod pwerau unioni'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan y Ddeddf yn annigonol ar gyfer yr her y dymunai ei gwneud, sef i gwmpas yr ymchwiliad a osodwyd gan y Comisiwn. Mynegodd yr elusen bryder na fyddai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf efallai'n rhoi rhesymau manwl am ei gasgliadau ynghylch cwmpas Ymchwiliad y Comisiwn; neu, hyd yn oed os oedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gwneud hynny, y gallai fod dadlau ac ymgyfreitha pellach ynghylch a oedd y Comisiwn wedi gweithredu ar benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn briodol. Dadleuai'r elusen ei bod hi'n well, yn yr amgylchiadau, i ganiatáu her adolygiad barnwrol i gwmpas yr ymchwiliad o'r cychwyn cyntaf.

Ni dderbyniodd y Llys Apêl y dadleuon hyn, a chynhaliodd farn y Llys Gweinyddol a gwrthod caniatâd ar gyfer adolygiad barnwrol o benderfyniad yr ymchwiliad. Nododd y Llys Apêl y byddai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi rhoi rhesymau, o dan cyfraith gwlad ac o dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y 'Confensiwn'). Cytunodd mai'r Llys Gweinyddol oedd yn iawn i ystyried y ffaith bod y Comisiwn yn

gorff cyhoeddus cyfrifol yn ffactor perthnasol ond nid yn ffactor terfynol. O ran y posibilrwydd ar gyfer dadlau ac ymgyfreitha pellach, nododd y Llys Apêl fod y posibilrwydd o achos barnwrol o'r newydd yn aml yn bresennol os nad yw'r llys yn gallu neu'n barod i ragnodi'n fanwl beth mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus ei wneud. Fodd bynnag, nid dyma'r rheswm dros ddweud nad yw apêl statudol yn ffurf effeithiol a dadleuol o unioni yn erbyn corff cyhoeddus fel y Comisiwn.

Bydd yr elusen yn parhau i herio ymchwiliad y Comisiwn trwy geisio caniatâd i apelio ymhellach i'r Llys Goruchaf.

**Gorchmynion cynhyrchu**

Derbyniodd y Llys Apêl ddadl yr elusen ar y gorchymyn cynhyrchu, gan wrthdroi dyfarniad y Llys Gweinyddol ar y pwynt hwn. Roedd yn dir cyffredin bod gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf awdurdodaeth i glywed apeliadau yn erbyn gorchmynion cynhyrchu'r Comisiwn o dan adran 52 o'r Ddeddf. Y mater dan sylw oedd a oedd yr awdurdodaeth statudol a roddwyd gan adran 320 o'r Ddeddf yn ddigon eang i glywed sail yr apêl a gyflwynwyd gan yr elusen yn yr achos hwn, yn enwedig ei chwyn bod y gorchymyn yn anghyfreithlon ar y sail ei Bod yn anghymesur, yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998 a/neu yn groes i Erthygl 8 o'r Confensiwn.

Mae adran 320 y Ddeddf yn gymwys i adran 52 o orchymynnon cynhyrchu yn unig, ac yn amlinellu awdurdodaeth benodol ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn achosion o'r fath, fel a ganlyn:

> *(2) Yn achos apêl o'r fath mae'n rhaid i'r Tribiwnlys ystyried a yw'r wybodaeth neu'r ddogfen dan sylw-*
> *(a) yn ymwneud ag elusen;*
> *(b) yn berthnasol i gyflawni swyddogaeth y Comisiwn neu'r ceidwad swyddogol.*
> *(3) Gall y Tribiwnlys ganiatáu apêl o'r fath dim ond os yw'n fodlon nad yw'r wybodaeth neu'r ddogfen dan sylw wedi'i chynnwys o fewn is-adran (2)(a) neu (b).*

Mae hyn yn cyferbynnu ag awdurdodaeth apêl arferol y Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 319 o'r Ddeddf a'i hawdurdodaeth adolygu o dan adran 321 o'r Ddeddf (gweler *Thrift Urban Housing* ar gyfer enghraifft o'r awdurdodaethau hyn ar waith).

Roedd y Llys Gweinyddol wedi derbyn dadl y Comisiwn bod hawl gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf i ystyried cymesuredd, hawliau dynol a diogelu data fel rhan o'r broses o asesu a yw'r wybodaeth a'r dogfennau a geisir gan orchymyn yn 'berthnasol' ac yn briodol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn' (adran 320(2)(b). Fel y nododd y Llys Gweinyddol, *"Nid yw'r diffiniad o swyddogaethau'r Amddiffynnydd o dan adran 15 yn rhoi awdurdod i'r Amddiffynnydd weithredu'n anghyfreithlon neu'n groes i ddeddfwriaeth arall, fel deddfwriaeth diogelu data, a fydd yn llywodraethu ei weithgareddau."* (dyfynnwyd ym mharagraff 24 dyfarniad y Llys Apêl)

Ni chytunodd y Llys Apêl. Ystyriodd ystyr cyffredin y sail a ganiateir ar gyfer apêl o dan adran 320(2), gan gynnal, *"Felly rhaid i orchymyn adran 52 gael ei gysylltu â, dylanwadu ar, ac ymwneud â chyflenwi swyddogaethau'r Comisiwn"* (paragraff 33 o ddyfarniad y Llys Apêl). O ganlyniad, roedd y dasg i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf fel a ganlyn:

*"mae adran 320 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Tribiwnlys ganolbwyntio ar y cysylltiad rhwng y gorchymyn a chyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae'n ofynnol iddi ofyn, fel mater o ffaith, a oes unrhyw gysylltiad rhwng y gorchymyn a chyflawni un neu ragor o'r swyddogaethau. Gall ganiatáu apêl dim ond os yw'n fodlon nad oes unrhyw gysylltiad o'r fath. Mae hynny'n gyson ag adran 320(2)(a) sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r tribiwnlys ystyried a oes unrhyw gysylltiad rhwng y gorchymyn a'r elusen ei hun. Mae hyn yn gwestiwn ffeithiol"* (paragraff 34 o ddyfarniad y Llys Apêl).

O ganlyniad, roedd y Llys Apêl wedi caniatáu'r apêl yn erbyn dyfarniad y Llys Gweinyddol ar orchymyn cynhyrchu. Anfonodd achos yr elusen ar y gorchymyn cynhyrchu i'r Llys Gweinyddol am benderfyniad ynghylch a oedd yr elusen wedi cyflwyno sail apelio gredadwy, ac felly dylai gael caniatâd i weithredu ei hadolygiad barnwrol.

**Y goblygiadau i elusennau**

Mae goblygiadau sylweddol gan ddyfarniad y Llys Apêl i elusennau (ac eraill) sydd am herio gorchymyn a wnaed gan y Comisiwn o dan adran 52 o'r Ddeddf. Erbyn hyn bydd rhaid ystyried yn ofalus, yn sgil dyfarniad

y Llys Apêl, a allai'r her gael ei dwyn yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan ei awdurdodaeth yn adran 320 o'r Ddeddf, neu a ddylai gael ei dwyn yn lle hynny fel adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol, oherwydd bod un neu ragor o'r seliau apêl y tu allan i awdurdodaeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

**Yr Uchel Lys - The Cup Trust**

Roedd hwn yn achos a gafodd ei ddwyn gan y Comisiwn yng Ngorffennaf 2015 gan ymgeisydd yn yr Uchel Lys ar gyfer cyfarwyddiadau i reolwyr dros dro roedd wedi'u penodol i The Cup Trust. Gwnaethpwyd y cais trwy ddefnyddio pŵer y Comisiwn o dan adran 78(5)(b) o'r Ddeddf, a dyma'r ail dro i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio gan y Comisiwn, yn dilyn cais mewn perthynas â The Dove Trust yn 2014.

Ceisiodd y Comisiwn gyfarwyddiadau yn awdurdodi'r rheolwyr dros dro i dynnu'n ôl cais sylweddol ar gyfer Cymorth Rhodd gan yr elusen, a gafodd ei wrthod gan Gyllid a Thollau EM ac a oedd erbyn hyn yn destun apêl gan yr elusen yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth).

Cafodd yr achos ei glywed gan Mr Ustus Snowden ar 19 Ionawr 2016 ac mewn dyfarniad manwl a roddwyd ar 21 Ebrill 2016, rhoddodd y barnwr ganiatâd i gais y Comisiwn a sancsiynu penderfyniad y rheolwyr dros dro i dynnu'r cais yn ôl.

Mae'r dyfarniad yn cynnwys archwiliad gofalus o'r dull priodol o ddefnyddio pŵer y Comisiwn o dan adran 78(5)(b) o'r Ddeddf. Mabwysiadodd y barnwr y dosbarthiad sefydledig o geisiadau i'r llys gan ymddiriedolwyr a drafodwyd gan Mr Ustus Hart yn *Public Trustee v Cooper* [2001] WTLR 901 at 922-924. Daeth i'r casgliad fod adran 78(5)(b) yn cynnig modd i'r Comisiwn wneud ceisiadau o dan y categori cyntaf (penderfyniad cyfrwymol o hawliau cyfreithiol) a hefyd yr ail gategori (ceisio sancsiwn y Llys ar gyfer penderfyniad pwysig iawn). Cytunodd y barnwr fod amgylchiadau eithriadol yn yr achos hwn oedd yn cyfiawnhau bod y Comisiwn yn cyfeirio'r mater at y llys yn hytrach na defnyddio ei bwerau ei hun. Roedd hyn yn cynnwys y ffeithiau anarferol, y symiau mawr a allai fod yn y fantol, a'r ddadlau ynghylch yr elusen (paragraff 69 o'r dyfarniad).

Mae'r dyfarniad hefyd yn amlinellu'r ymagwedd y bydd y Llys yn ei mabwysiadu mewn achosion o'r fath, yn seiliedig ar *Public Trustee v Cooper* a *Re MF Global UK Limited* [2014] EWHC 2222 (Ch) ym mharagraff 32. Y cam cyntaf oedd sefydlu bod yr holl wybodaeth berthnasol gan y Llys, a bod y barnwr yn fodlon fod y Comisiwn a'r rheolwyr dros dro wedi rhoi'r holl wybodaeth berthnasol gerbron. Roedd y Llys yn fodlon hefyd ar yr ail bwynt (bod y rheolwyr dros dro wedi gwneud y penderfyniad y ceisiwyd y cymeradwyaeth ar ei gyfer) a'r trydydd pwynt (nad oedd gan y rheolwyr dros dro unrhyw wrthdaro buddiannau pan roeddent yn gwneud hynny).

Y cwestiwn allweddol felly oedd "a yw'r penderfyniad i beidio â pharhau â'r ceisiadau Cymorth Rhodd yn un y gallai corff rhesymol o ymddiriedolwyr, wedi'u cyfarwyddo'n briodol, a chan anwybyddu'r ffactorau amherthnasol, fod wedi'i wneud yn briodol" (paragraff 75).

Cytunodd y barnwr â'r Comisiwn a'r rheolwyr dros dro nad oedd y penderfyniad yn bodloni'r prawf hwn. Drwy wneud hynny, derbyniodd yn arbennig: (i) cyngor Mr Furness QC i'r elusen bod y rhagolygon o'r cynllun osgoi treth yn llwyddo yn ddibwys; (ii) bod cynnig yr ymddiriedolwr i gyllido'r ymgyfreitha treth yn annigonol i dalu costau'r elusen a'i diogelu rhag y risg o orchymyn costau yn ei herbyn, a (iii) oherwydd y gwrthdaro buddiannau ac ymddygiad yr ymddiriedolwr, roedd hawl gan y rheolwyr dros dro i fabwysiadu'r farn na ddylai'r ymddiriedolwr gymryd rhan yn ymgyfreitha treth yr elusen.

O ganlyniad, daeth y barnwr i'r casgliad bod penderfyniad y rheolwyr dros dro i beidio â derbyn cynnig yr ymddiriedolwr o gyllid a pheidio â pharhau â'r ceisiadau Cymorth Rhodd o fewn yr ystod o benderfyniadau y gallai ymddiriedolwyr elusen rhesymol eu gwneud yn briodol, a chymeradwyodd y penderfyniad

**Goblygiadau ehangach**

Yn ogystal â dadansoddiad gofalus o bŵer y Comisiwn a rôl y Llys o dan adran 78(5)(b) o'r Ddeddf, mae'r dyfarniad yn bwysig hefyd oherwydd ei sylwadau ar ddyletswyddau ymddiriedolwyr elusen wrth ystyried y math hwn o drefniadau treth. Cytunodd y barnwr, oherwydd eu dyletswydd i ddefnyddio

asedau elusennol yn ddoeth, nid oedd rhyddid gan yr ymddiriedolwyr elusen i "fentro" ar ymgyfreitha treth hapfasnachol (paragraff 77). Dyma'r pwynt a wnaed gan Mr Furness QC yn ei gyngor i'r elusen (wedi'i grynhoi ym mharagraff 34 o'r dyfarniad).

**Yr Uwch Dribiwnlys - Nicholson v Comisiwn Elusennau**

Mae'r Apelydd (Mr Nicholson) yn unigolyn oedd yn ceisio herio cofrestru rhai elusennau (y cyfeirir atynt fel 'elusennau JNF' yn y dyfarniad). Y mater cyfreithiol dan sylw yn yr achos hwn oedd a oedd gan yr Apelydd y safle angenrheidiol i ddwyn apêl yn herio cofrestru elusennau. Roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi cytuno â'r Comisiwn nad oedd gan yr Apelydd y safle oherwydd nid oedd yn 'berson a effeithir gan y penderfyniad', ond rhoddodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf ganiatâd ar gyfer apêl yn yr Uwch Dribiwnlys oherwydd cydnabu nad oedd awdurdod cyfreithiol cyfrwymol ar y pwynt hwn, ac y byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i gael penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys ar yr ymagwedd gywir at y prawf statudol ar gyfer safle i ddwyn apêl.

Clywyd yr apêl gan Mrs Ustus Asplin ar 21 Mawrth 2016, a rhyddhawyd ei dyfarniad ar 20 Ebrill 2016 o dan y cyfeirnod [2016] UKUT 0198 (TCC).

Mae'r dyfarniad yn cynnal safle'r Comisiwn a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf nad oedd Mr Nicholson yn berson a effeithir gan y penderfyniad ar gofrestru elusennau, ac felly gwrthodwyd apêl Mr Nicholson ar y sail nad oedd safle ganddo.

Y mater penodol dan sylw ynn yr achos hwn oedd a oedd Mr Nicholson yn 'berson a effeithir' o ganlyniad i fod yn "dderbynnydd penderfyniad y Comisiwn i beidio â dileu'r elusennau o'r Gofrestr Elusennau a/neu o ganlyniad i'w ymgysylltiad â'r Comisiwn ynghylch hyn. Ar y mater penodol hwn, penderfynodd y barnwr:

- Ni all fod yn "dderbynnydd ynddo'i hun ddod ag unigolyn o fewn y categori o bersonau â safle (paragraff 46). Roedd dau reswm dros hyn. Yn gyntaf, er mwyn gael ei 'effeithio', mae'n rhaid cael effaith adnabyddadwy ar hawliau cyfreithiol yr unigolyn: nid oedd yn ddigonol bod yr unigolyn yn anghytuno â'r penderfyniad yn emosiynol, yn wleidyddol neu'n ddeallusol, ac o ganlyniad wedi'i effeithio'n emosiynol a/neu'n gymdeithasol, pa mor ddidwyll bynnag y bo ei bryderon (paragraff 47). Yn ail, os oedd bod yn dderbynnydd yn ddigonol i sefydlu safle, byddai hyn yn golygu bod y Comisiwn yn gallu cynyddu neu gyfyngu ar awdurdodaeth statudol y Tribiwnlys Haen Gyntaf gan ei benderfyniadau gweinyddol (paragraff 51). Derbyniodd y barnwr ddadl y Comisiwn nad dyma oedd y dadansoddiad cywir.
- Nid oedd y materion eraill a gyflwynwyd gan yr Apelydd, fel darparu gwybodaeth i'r Comisiwn a chyfenwid gohebiaeth â'r Comisiwn, yn gwella ei sefyllfa ar safle (paragraff 53).

Wrth gyrraedd y casgliad hwn, penderfynodd y barnwr bod penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn achos blaenorol, *Lasper*, wedi'i benderfynu'n anghywir ac ni ddylid dilyn (paragraff 52).
Mae'r dyfarniad hefyd yn darparu canllawiau defnyddiol yn fwy cyffredinol ar y cwestiwn o bryd y bydd apelydd yn 'berson a effeithir gan benderfyniad' sy'n gymwys i nifer o benderfyniadau'r Comisiwn y gellir eu herio yn y Tribiwnlys. Yn arbennig, dywedodd y barnwr (paragraff 44):

- mae angen canolbwyntio'n unig ar y penderfyniad arbennig a phenderfynu yn yr holl amgylchiadau a yw wedi cael effaith ar y person arbennig dan sylw
- i ddangos hyn, rhaid sefydlu dau bwynt: yn gyntaf, mae'n rhaid i'r penderfyniad ei hun ymwneud â'r person mewn rhyw ffordd, ac yn ail, rhaid i hawliau cyfreithiol y person fod wedi cael eu tresmasu neu eu heffeithio gan y penderfyniad, ac er mwyn bod yn berson a "allai" gael ei effeithio, rhaid bod effaith adnabyddadwy ar hawliau cyfreithiol y person sy'n debygol o ddigwydd

**Goblygiadau ehangach**

Mae goblygiadau ehangach pwysig i'r dyfarniad ar gyfer elusennau cofrestredig, oherwydd mae'n cadarnhau y dylai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf fabwysiadu ymagwedd gul at ystyried a oes safle gan berson i herio ei gofrestriad fel elusen. Ni ddylai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf dderbyn apêl dim ond ar sail gwrthwynebiadau emosiynol, gwleidyddol neu ddeallusol i reoleiddio elusen, ond dylai chwilio am

berthynas rhwng yr unigolyn a'r penderfyniad cofrestru yn ogystal ag effaith adnabyddadwy ar hawliau cyfreithiol yr unigolyn.

**Achosion yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf**

**Vernor-Miles and Ors v Comisiwn Elusennau (mewn perthynas â Rheoleiddiwr Annibynnol y Wasg, IPRT)**

Apeliodd yr Apelyddion yn erbyn penderfyniad y Comisiwn i wrthod cofrestru IPRT fel elusen.

Roedd y Comisiwn wedi gwrthod cofrestru ar y sail nad oedd y dibenion yn amlwg yn gyfreithiol elusennol. Caniataodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf i'r Apelyddion apelio, a gorchmynnodd y Comisiwn i unioni'r Gofrestr er mwyn ei gynnwys.

Amcanion IPRT yw *"hyrwyddo er budd cyhoeddus safonau uchel o ymddygiad moesegol ac arferion gorau mewn newyddiaduraeth a golygu a chyhoeddi'r newyddion mewn print a chyfryngau eraill"* trwy gyllido a chefnogi rheoleiddiwr y wasg annibynnol y cydnabyddir ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion a sefydlwyd gan ymchwiliad Leveson a'r Siarter Frenhinol ar Hunanreoleiddio'r Wasg.

Gwrthododd y Comisiwn gofrestru IPRT ar y sail nad oedd y dibenion yn amlwg yn gyfreithiol elusennol. Cydnabu y gallai'r dibenion fod yn debyg i ddibenion hyrwyddo gwelliant moesegol neu foesol y gymuned neu hyrwyddo cydymffurfio â'r gyfraith, ond daeth i'r casgliad, cyn bod unrhyw rheoleiddiwr y wasg wedi cael ei sefydlu a dechrau gweithredu, nid oedd yn bosibl penderfynu bod hyrwyddo'r rheoleiddiwr hwnnw yn elusennol yn unig.

Ni chafodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf ei ddarbwyllo gan ddadleuon y Comisiwn bod y dibenion yn aneglur neu'n amwys, ac o ganlyniad penderfyniad nad oedd angen ystyried tystiolaeth allanol i benderfynu ar y dibenion.

Derbyniodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod diben IPRT yn ddigon tebyg i ymddiriedolaethau sy'n tueddu i hyrwyddo gwelliant moesegol a moesol y gymuned a gydnabyddir fel diben elusennol gan y llysoedd ac wedi'u cynnwys o fewn y disgrifiadau o ddibenion yn adran 3(1)(m)(i) o'r Ddeddf.

Cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf â'r Comisiwn, ac ni dderbyniodd dadleuon IPRT fod y diben yn ddigon tebyg i ddibenion eraill gan gynnwys ymddiriedolaethau i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r gyfraith a hyrwyddo cynnal a chadw safonau priodol yn y proffesiwn meddygol.

Cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf â'r Comisiwn nad oedd dibyniaeth IPRT ar awdurdod cyfreithiol mewn awdurdodaeth arall wedi'i gynnwys o fwn yr 'hen gyfraith' yn adran 3(4) o'r Ddeddf oherwydd ei fod wedi'i gyfyngu i'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

Ystyriwyd statws penderfyniad cyhoeddedig y Comisiwn Public Concern at Work. Nid penderfyniad y llys yw hwn neu dribiwnlys ac nid yw wedi'i gynnwys o dan yr 'hen gyfraith'. Mynegodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf y farn bod modd dibynnu arno o bosib fel un sydd wedi'i gynnwys o fewn adran 3(1)(m)(ii) o'r Ddeddf ac yn ddigon tebyg i neu o fewn ysbryd y disgrifiadau o ddibenion.

Ar sail budd cyhoeddus, cyflwynwyd tystiolaeth newydd gan IPRT nad oedd ar gael i'r Comisiwn ar adeg gwneud y penderfyniad. Roedd hawl gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf ystyried y dystiolaeth hon trwy rinwedd adran 319(4) o'r Ddeddf. Roedd hyn yn ddarbwyllol ym marn y Tribiwnlys Haen Gyntaf a nododd fod argymhellion Leveson wedi cael eu gwneud yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus a'u cefnogi gan y Senedd. Daeth i'r casgliad fod cefnogi rheoleiddiwr y wasg annibynnol arfaethedig er budd y cyhoedd. Darllen penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

**Cambridgeshire Target Shooting Association (CTSA) v Comisiwn Elusennau**

Roedd CTSA wedi apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiwn i beidio â'i gofrestru fel elusen

Roedd y Comisiwn wedi gwrthod cofrestru CTSA ar y sail nad oedd wedi'i sefydlu bod saethu targedau fel y gwneir gan CTSA yn hybu iechyd, ac felly ni ellid dweud bod CTSA yn hyrwyddo chwaraeon amatur

at ddibenion y Ddeddf. Gwrthododd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yr apêl, gan gynnal penderfyniad y Comisiwn. Cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf â'r Comisiwn nad oedd y budd i iechyd, naill ai'n gorfforol neu'n feddyliol, wedi'i sefydlu.

Y mater allweddol i'w benderfynu yn yr achos oedd a yw saethu targedau yn gamp sy'n hybu iechyd trwy gynnwys sgil neu ymdrech corfforol neu feddyliol. Ni chwestiynwyd a oedd saethu targedau, yn gyffredinol, yn gamp.

Cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod rhaid i'r Apelydd brofi, ar ôl pwyso a mesur, bod y sgil neu'r ymdrech sy'n rhan o'r gamp yn hybu iechyd a bod rhaid dangos bod y sgil neu'r ymdrech dan sylw yn hybu iechyd. Cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf â'r Comisiwn fod hybu iechyd yn golygu gwella iechyd cyffredinol. Wrth ystyried a yw'r gweithgaredd yn hybu iechyd rhaid ystyried effaith y gweithgaredd. Os yw'r amcanion yn cynnwys gweithgareddau ar wahân, yna os yw unrhyw un o'r gweithgareddau hynny sy'n cynrychioli cyfran sylweddol heb eu dangos eu bod yn hybu iechyd, nid yw'r diben yn elusennol.

Cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf nad oes unrhyw ragdybiaeth o fudd cyhoeddus, a rhaid dangos bod diben er budd y cyhoedd. Prawf gwrthrychol yw hwn i'w bennu ar sail y dystiolaeth. Ystyriodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf y dystiolaeth arbenigol a gyflwynwyd iddi ar y cwestiwn o fudd i iechyd. Cyflwynwyd pedwar arbenigwr gan CTSA ac un gan y Comisiwn.

Wrth ystyried y dystiolaeth dywedodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod rhaid iddo fodloni ei hun fod y dystiolaeth y dibynnir arni yn dangos ansawdd ac argyhoeddiad.

Mae'r penderfyniad yn bwysig oherwydd dyma'r achos cyntaf i'w ystyried gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas â'r diben elusennol o hyrwyddo chwaraeon amatur. Cyflwynodd y Comisiwn a'r CTSA dystiolaeth arbenigol mewn perthynas â'r cwestiwn o fudd i iechyd. Nid oedd y Comisiwn wedi derbyn y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo fel tystiolaeth ddigonol i sefydlu hybu iechyd. Cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf os oes amheuaeth ynghylch budd o'r fath *"ni ddylai'r Comisiwn na'r Tribiwnlys ddod i gasgliadau'n ysgafn sy'n arwain at fanteision statws elusennol yn cael eu rhoi ar gyfer gweithgareddau y mae'r sail wyddonol yn llai na chadarn."*

Ystyriodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod rhaid i hybu iechyd trwy weithgaredd corfforol neu feddyliol fod o sylwedd neu o arwyddocâd i roi budd i adran o'r cyhoedd. Os nad yw'r ymdrech corfforol yn fwy na *de minimis* mae'n golygu nad oes modd sefydlu'r budd cyhoeddus.

Daeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf i'r casgliad fod y gweithgaredd o saethu targedau gan CTSA yn cynnwys nifer o weithgareddau neu ddisgyblaethau ar wahân na sefydlwyd eu bod yn hybu iechyd.

Darllen penderfyniad y Tribiwnlys.

**Thrift Urban Housing and Peter Alman v Comisiwn Elusennau**

Ceisiai'r Apelyddion gael adolygiad o benderfyniad y Comisiwn i gychwyn ymchwiliad statudol (adran 46 o'r Ddeddf) ac apeliodd yn erbyn gorchymyn y Comisiwn i beidio â rhoi'r gorau i eiddo (adran 76(3)(d) o'r Ddeddf).

Ar 17 Ebrill 2015, penderfynodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf *"roedd penderfyniad y Comisiwn i gychwyn ymchwiliad statudol yn gyfreithlon ac roedd y penderfyniad i gyhoeddi Gorchymyn Rhewi a'i adael yn ei le yn briodol."*

Mae'r penderfyniad hwn yn enghraifft weddol anghyffredin o achos Tribiwnlys Haen Gyntaf yn herio defnydd o bwerau gorfodi'r Comisiwn. Mae'n un o'r achosion cyntaf yn herio cychwyn ymchwiliad statudol yn dilyn y canllawiau a roddwyd gan UT yn *Regentford Limited v Charity Commission & Attorney General [2014] UKUT 0364 (TCC)* ar yr ymagwedd y dylai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ei mabwysiadu mewn achosion o'r fath.

Mae penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd yn darparu sylwadau ar bwysigrwydd cydweithrediad ymddiriedolwyr â'r Comisiwn fel rheoleiddiwr.

**Yr ymholiadau y mae angen eu gwneud cyn cychwyn ymchwiliad**

Pan fydd yn clywed her yn erbyn penderfyniad i gychwyn ymchwiliad o dan adran 46 o'r Ddeddf, mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn arfer awdurdodaeth adolygu. Rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gymhwyso'r egwyddorion a fyddai'n cael eu cymhwyso gan yr Uchel Lys ar gais am adolygiad barnwrol (adran 321 o'r Ddeddf).

Dadleuai'r Apelyddion fod y penderfyniad i gychwyn yr ymchwiliad statudol yn anghyfreithlon oherwydd;

- dylai'r sawl a wnaeth y penderfyniad fod wedi gwneud ymholiadau ychwanegol cyn gwneud y penderfyniad i gychwyn ymchwiliad ond nid oedd wedi gwneud hynny
- roedd y Comisiwn wedi rhwystro ei ddisgresiwn trwy fethu â sicrhau bod gan y sawl a wnaeth y penderfyniad yr holl wybodaeth oedd ym meddiant y Comisiwn
- felly roedd y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi methu ag ystyried gwybodaeth berthnasol a ddylai fod wedi ei hystyried cyn gwneud penderfyniad i gychwyn ymchwiliad

Anghytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf gan gynnal: *"nid oes rhaid i benderfyniad y Comisiwn fod wedi cael ei wneud ar sail gwybodaeth lawn a chywir o ran yr amgylchiadau...er mwyn iddo gael ei wneud yn ddilys ac yn briodol. Mae'n ymhlyg mewn unrhyw benderfyniad dilys i gychwyn ymchwiliad bod angen gwybodaeth ychwanegol."*

Eglurodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf nad oedd diffyg gwybodaeth gywir ynghylch honiadau yn erbyn ymddiriedolwyr neu'r elusen yn anghyfreithlon ynddo'i hun neu'n sail afresymol dros wneud penderfyniad i gychwyn ymchwiliad statudol, ond bod gan y Comisiwn ddyletswydd i *"ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael iddo a pheidio ag ystyried gwybodaeth sy'n amherthnasol."*

**Sylwadau ar gamymddwyn a/neu gamreoli wrth weinyddu elusen**

Pan fydd yn clywed her yn erbyn gorchymyn i beidio â rhoi'r gorau i eiddo o dan adran 76 o'r Ddeddf, mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn arfer awdurdodaeth adolygu. Rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ystyried y gorchymyn o'r newydd, a gall ystyried tystiolaeth nad oedd ar gael i'r Comisiwn (adran 319(4) o'r Ddeddf).

Wrth ystyried yr apêl yn erbyn y gorchymyn yn yr achos hwn, pwysleisiodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf bwysigrwydd cydweithrediad ymddiriedolwyr â'r Comisiwn fel rheoleiddiwr. Cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf â'r Comisiwn bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd wrth weinyddu Thrift Urban Housing Limited, a bod hyn yn cynnwys:

- diffyg cydweithrediad yr ymddiriedolwyr â'r Comisiwn
- anallu neu amharodrwydd yr ymddiriedolwyr i ddarparu cofnodion dogfennol i'r Comisiwn
- taliad ymddangosiadol o fuddion sylweddol i unigolyn a oedd ar adegau amrywiol yn ymddiriedolwr yr elusen
- arwyddo siec i'w dynnu ar gyfrif banc yr elusen gan unigolyn nad oedd yn ymddiriedolwr ac a oedd yn fuddiolwr y siec ei hun - gwnaethpwyd y camymddwyn/camreoli hwn yn fwy cymhleth gan y ffaith i'r siec gael ei gydarwyddo gan chwaer y buddiolwr

Darllen copi o ddyfarniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf